ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Statistical Article
Erthygl Ystadegol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dadansoddi Amddifadedd Plant fesul Ardal 2014 (Dangosyddion MALIC 2014)[1]

Mae'r Erthygl Ystadegol hon yn Dadansoddi Amddifadedd Plant fesul Ardal yng Nghymru, gan ddefnyddio rhai o'r dangosyddion sy'n sail i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2014. Mae'n darparu mapiau a dadansoddiadau cryno ar gyfer 6 o wahanol ddangosyddion ar gyfer Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI). Mae'r dangosyddion yn cwmpasu'r meysydd MALIC canlynol: Incwm, Iechyd, Addysg a Thai, ac fe'u disgrifiwyd yn y tabl isod. Mae yna rywfaint o ddadansoddi ar sail dosbarthiad hefyd o'r ffordd y mae'r boblogaeth blant wedi'i gwasgaru ar draws ardaloedd gyda gwahanol amddifadedd o ran MALIC cyffredinol, a'r meysydd Diogelwch Cymunedol, Mynediad Daearyddol i Wasanaethau ac Amgylchedd Ffisegol.

## Tabl Dangosyddion

| Parth MALIC | Disgrifiad Cryno o'r Dangosydd | Oed y plant | Ffynhonnell a chyfnod cyfeirnod |
|---|---|---|---|
| Incwm | Plant ar aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm neu credydau treth | Plant oed 0-18 | Yr Adran Gwaith a Phensiynau (cyfartaledd Tach 2012, Chwef, Mai ac Awst 2013);<br>Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (ar 31ain Awst 2012);<br>Y Swyddfa Gartef (ar 1af Medi 2014);<br>ac Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach canol-2012 |
| Iechyd | Salwch Cyfyngus Hirdymor | Plant oed 0-18 | Cyfrifiad 2011 |
| Iechyd | Pwysau Geni Isel | Single live births | Cofrestriadau geni rhwng 2004-2013, Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Addysg | Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 Cynhwysol | Plant oed 15 | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, a Chronfa Ddata Arholiadau Cymru, blynyddoedd academaidd 2010/11 – 2012/13 |
| Addysg | Absenoliaeth Mynych | Disgyblion ysgol gynradd ac uwchradd | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, blynyddoedd academaidd 2010/11 – 2012/13 |
| Tai | Aelwydydd gorlawn | Plant oed 0-18 | Cyfrifiad 2011 |

## Cynnwys

1. Cefndir ..... 2
2. Crynodeb ..... 3
3. Dangosydd amddifadedd incwm ..... 5
4. Dangosydd salwch cyfyngus hirdymor ..... 13
5. Dangosydd pwysau geni isel ..... 19
6. Dangosydd Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol ..... 24
7. Dangosydd absenoliaeth mynych ..... 30
8. Dangosydd aelwydydd gorlawn ..... 36
9. Dadansoddiad o ddosbarthiad plant ar draws grwpiau amddifadedd ar gyfer meysydd MALIC 2014 ..... 42
10. Rhagor o wybodaeth ..... 43
11. Nodiadau ar ddefnyddio erthyglau ystadegol ..... 44

Dyddiad Cyhoeddi: 1 Rhagfyr 2015
Diweddariad Nesaf: Nid yn allbwn rheolaidd
Ystadegydd: Nia Jones, Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi
E-bost: ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru
Ffôn: 029 2082 3371
**Twitter:** www.twitter.com/statisticswales | www.twitter.com/ystadegaucymru

1 Mae nodiadau ar y defnydd o erthyglau ystadegol i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon

## 1. Cefndir

Mae'r Erthygl hon yn rhoi darlun o amddifadedd plant ar gyfer ardaloedd bach ar draws cyfres fach o ddangosyddion allweddol, gan gymharu ag ardaloedd eraill yn ogystal â dangos lefelau gwirioneddol fel cyfraddau'r plant sy'n dioddef Salwch Cyfyngus Hirdymor. Gellir ei defnyddio ar gyfer creu proffil o ardal a dyrannu adnoddau, ynghyd â rhoi darlun o'r ffordd y mae lefelau amddifadedd plant yn amrywio ledled Cymru a rhwng gwahanol ddangosyddion. Y bwriad yw mai hon yw'r gyntaf mewn cyfres o Erthyglau i gyd-fynd â'r data Dangosyddion blynyddol, ac rydym yn croesawu adborth ar bynciau, cynnwys a fformat yr Erthyglau.

Ochr yn ochr â'r Erthygl, rydym wedi cyhoeddi data newydd ar StatsCymru ar gyfer nifer o grwpiau oedran (gan gynnwys mwy o fanylion ar gyfer plant e.e. 0-4) a hefyd dangosyddion eraill fel cyfraddau hawlwyr budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra, a phobl heb gymwysterau. Rydym hefyd wedi cyhoeddi erthygl fel canllaw ar gyfer defnyddwyr data Dangosydd MALIC, sy'n rhoi arweiniad ar ba ddata sydd wedi'i gyhoeddi, sut i gael gafael arno, gair i gall o ran dadansoddiadau, cyngor ar i ba raddau gellir cymharu data dros amser, a dolenni i ddadansoddiadau presennol.

Mae'r allbynnau newydd yma yn disodli cynlluniau i ddiweddaru'r Mynegai Plant gyda gwybodaeth a dadansoddiad a fydd yn fwy defnyddiol a pherthnasol i ddefnyddwyr. Bydd yr allbynnau newydd yn cefnogi dadansoddiad o amddifadedd plant (a grwpiau oedran eraill), gan ganiatáu rhywfaint o ddadansoddiad dros amser, cymariaethau rhwng ardaloedd, ac o bosib ychwanegu dangosyddion defnyddiol eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y prif Fynegai yn y dyfodol. Roedd Mynegeion Plant MALlC blaenorol wedi cael eu torri i lawr o'r Mynegai llawn, gan gynnwys dangosyddion sy'n berthnasol i blant. Nid oeddent o reidrwydd yn cynnwys y dangosyddion gorau sydd ar gael am amddifadedd plant. Roedd ymatebion i ymgynghoriad cyffredinol MALlC 2014 yn dangos defnydd cyfyngedig o'r Mynegeion Plant blaenorol, ac roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â'r syniad o flaenoriaethu dadansoddiad o'r data dangosyddion MALlC.

Mae'r dadansoddiad yn dibynnu ar ddata gweinyddol a data Cyfrifiad. Gall y niferoedd fod yn isel ar lefel ardal fach ac ar gyfer grwpiau oedran penodol, a all arwain at gyfraddau'n dangos amrywiadau mawr o ystyried y newidiadau cymharol fach yn y boblogaeth sylfaenol. Mae rhai rhannau o'r Erthygl hon yn cynnwys cyfrif o blant (yn hytrach na chyfraddau'r dangosydd) fel gwybodaeth gyd-destunol, ac er nad yw'r cyfrifiadau yn gyffredinol wedi'u gyhoeddi ar StatsCymru, rydym wedi darparu dolenni i wybodaeth bellach lle y bo'n bosibl. Fodd bynnag, gall y "cyfrifiadau dangosydd" hefyd fod yn fach ac mewn rhai achosion wedi'u hatal oherwydd y potensial ar gyfer datgelu data. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data.

Ym mhob adran, mae cyfeiriadau at "plant mewn amddifadedd" fel arfer yn ymwneud â'r dangosydd penodol mae'r adran yn canolbwyntio ar, e.e. o ran y dangosydd Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol mae "plant mewn amddifadedd" yn golygu'r rheini nad ydynt wedi cyflawni'r safon Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol. Fel arall mae'r cyfeiriad yn enwi'r mesur amddifadedd mewn defnydd, e.e. "Plant mewn amddifadedd yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014".

## 2. Crynodeb

### 2.1 Amddifadedd plant am Gymru gyfan

- Mae plant yn fwy tebygol o fyw ar aelwydydd mewn amddifadedd incwm (27 y cant) o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol (17 y cant).
- Roedd gan blant lefelau is o salwch cyfyngus hirdymor (4,615 fesul 100,000) o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol (22,715 fesul 100,000).
- Canran y babanod a gafodd eu geni gyda phwysau geni isel oedd 5.6 y cant.
- Canran y plant oed 15 oedd yn cyflawni dangosydd Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol oedd 51.8 y cant.
- Canran yr absenoliaeth mynych ar gyfer plant oed ysgol oedd 9.9 y cant.
- Mae plant yn fwy tebygol o fyw ar aelwydydd gorlawn (9.2 y cant) na'r boblogaeth gyffredinol (5.5 y cant).

### 2.2 Dosbarthiad plant ar draws ardaloedd difreintiedig

- Yn ôl y disgwyl, mae perthynas rhwng amddifadedd MALIC 2014 cyffredinol a dosbarthiad amddifadedd plant ar gyfer yr holl ddangosyddion o fewn yr erthygl. Mae'r berthynas yn gryfaf ar gyfer y dangosydd amddifadedd incwm, wedi'i ddilyn gan y ddau ddangosydd sy'n gysylltiedig ag addysg.
- Fodd bynnag ar gyfer pob un o'r chwe dangosydd ar gyfer plant, mae o leiaf un ardal yn y 50% lleiaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 yn dangos amddifadedd cymharol uchel yn erbyn y dangosydd plentyn. Hynny yw, mae rhai ardaloedd yn yr hanner lleiaf difreintiedig yn gyffredinol yn dal i gael cyfraddau cymharol uchel o blant difreintiedig o ran incwm, addysg, iechyd neu aelwydydd gorlawn.
- Y dangosydd gyda'r crynhoad daearyddol cryfaf o amddifadedd plant oedd y dangosydd amddifadedd incwm (mae 25.7 y cant o blant difreintiedig wedi'u crynhoi yn y 10% o ACEHI mwyaf difreintiedig), ac fe'i dilynir gan y dangosydd aelwydydd gorlawn (mae 22.2 y cant o blant ar aelwydydd gorlawn wedi'u crynhoi yn y 10% o ACEHI mwyaf difreintiedig)
- Trwy ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer ardaloedd bach, gallwn archwilio'r gyfran o blant sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Gan ddefnyddio'r graddau MALIC cyffredinol, mae 12 y cant o blant yn byw yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig. Roedd y cyfrannau cyfatebol yn 10.6 y cant ar gyfer y maes diogelwch cymunedol, ac 11.1 y cant ar gyfer y maes amgylchedd ffisegol.
- Mae dadansoddiad tebyg ar gyfer y maes mynediad daearyddol i wasanaethau yn dangos crynhoad ychydig is o blant yn byw yn y 10% o ACEHI mwyaf difreintiedig na'r disgwyl pe bai wedi'i wasgaru'n gyfartal rhwng ACEHI (9.3 y cant).

### 2.3 Dadansoddiad o'r Awdurdodau Lleol mwyaf difreintiedig

- Caerdydd, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful oedd â'r cyfrannau uchaf ac ail uchaf o'u ACEHI o fewn y 10% o ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer 3 o'r 6 dangosydd yr un. Roedd hyn yn wir am Rondda Cynon Taf ar gyfer 2 o'r 6 dangosydd.
- Mae Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr yn sefyll allan fel yr ardaloedd sydd â'r cyfrannau cyntaf ac ail uchaf o'u ACEHI o fewn y 10% ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer salwch hirdymor cyfyngol, yn y drefn honno.
- Nid oedd gan Bowys unrhyw ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer 3 o'r 6 dangosydd, a Sir Fynwy ar gyfer 2 o'r 6 dangosydd.

- Er bod gan Gaerdydd gyfran fawr o'i ACEHI o fewn y 10% ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer dangosyddion lluosog, roedd yn dangos y patrwm mwyaf gwasgaredig o amddifadedd. Hynny yw, mae'r cyfraddau ar gyfer ei hanner canol ACEHI (yr Amrediad Rhyngchwartel) yn cael eu lledaenu ar draws ystod gymharol eang ar gyfer dangosyddion lluosog. Roedd hyn hefyd yn wir i raddau llai mewn llawer o ddangosyddion ar gyfer ardaloedd trefol mawr eraill (ee Abertawe, Casnewydd a Wrecsam).
- Roedd yr hanner canol o ACEHI Blaenau Gwent wedi'u ledaenu ar draws yr ystod gulaf o werthoedd ar gyfer dangosyddion lluosog (3 o'r 6), gan awgrymu patrwm cywasgedig o amddifadedd. Roedd yr Awdurdodau Lleol gyda'r ystod gulaf o werthoedd ar gyfer y dangosyddion eraill yn tueddu i fod yn awdurdodau gwledig (ee Gwynedd a Phowys yn arbennig), gan awgrymu llai o amrywiaeth mewn patrymau amddifadedd.

## 2.4 Dadansoddiad o'r ACEHI mwyaf difreintiedig

Yn gyffredinol, wedi'u mapio mae'r dangosyddion ar gyfer plant yn dilyn patrwm tebyg i MALIC cyffredinol 2014, gyda phocedi o amddifadedd uchel yng nghymoedd y De a'r dinasoedd mawr, a rhai trefi arfordirol yn y Gogledd. Roedd y ddau ddangosydd sy'n gysylltiedig ag iechyd a'r dangosydd cartrefi gorlawn yn tueddu i ddangos mwy o ardaloedd yng nghanolbarth a gorllewin Cymru yn y grwpiau mwy difreintiedig na'r tri dangosydd arall (amddifadedd incwm a'r ddau ddangosydd sy'n gysylltiedig ag addysg).

Mae'r pwyntiau canlynol yn canolbwyntio ar y 10 o ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer pob un o'r dangosyddion amddifadedd plant sydd wedi'u cynnwys yn yr Erthygl hon.

- Mae gan Gaerdydd o leiaf 1 o'i ACEHI yn y 10 o ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer pob dangosydd. O fewn Caerdydd, mae ardal Cathays yn ymddangos ar restr 10 uchaf 4 o'r 6 dangosydd, ac yn benodol mae ACEHI Cathays 5, 6 a 9 yn ymddangos ar restr 10 uchaf 2 ddangosydd.
- Mae gan Rondda Cynon Taf, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr a Chasnewydd o ACEHI yn y 10 o ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer dangosyddion lluosog ac mae gan bob un o leiaf 1 ACEHI yn ymddangos dro ar ôl tro (o leiaf ddwywaith) ar gyfer y dangosyddion hyn.
- Nid oedd gan dros i draean (8 allan o 22) o awdurdodau lleol ACEHI yn ymddangos yn y 10 o ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer unrhyw ddangosydd yn yr erthygl hon. Roedd y rhain yn cynnwys Gwynedd, Sir y Fflint, Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Torfaen, Merthyr Tudful a Sir Fynwy.
- Mae gan awdurdod lleol Caerdydd 9 allan o 10 o'r ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer gorlenwi plant, gyda thair ACEHI gyfagos yn Butetown a phedair ACEHI gyfagos arall (Cathays 9, Cathays 6, Cathays 7 a Phlasnewydd 4).
- Mae gan awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot 5 o'r 10 o ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer salwch cyfyngus hirdymor, ac mae dwy o'r rhain yn ACEHI cyfagos (Gorllewin Sandfields 4 a Dwyrain Sandfields 2).
- Castell 2 Gogledd yn Abertawe oedd yr ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer absenoliaeth mynych, ond eto hon oedd yr Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is leiaf difreintiedig o'r holl ACEHI ar gyfer salwch cyfyngus hirdymor. Fodd bynnag, roedd yr ACEHI hon yn cynnwys poblogaeth fach o blant, ac mae'n dangos sut y gall niferoedd bach arwain at ganlyniadau annibynadwy.

## 3. Dangosydd amddifadedd incwm

Mae’r dangosydd amddifadedd incwm yn ddangosydd cyfansawdd sy’n mesur tair elfen: aelwydydd sydd ag 1) Hawlwyr Budd-dal sy’n Gysylltiedig ag Incwm, 2) Derbynyddion Credyd Treth a 3) Ceiswyr Lloches a Gynorthwyir ac mae’r rhain yn cael eu trafod ymhellach isod yn adran 3.5.

### 3.1 Canlyniadau allweddol

- Mae gan blant cyfradd uwch o amddifadedd incwm, 27 y cant (sy’n cyfateb i 177,580 o blant ar aelwydydd mewn amddifadedd incwm) o’i gymharu â’r boblogaeth gyffredinol, 17 y cant (sy’n cyfateb i 525,300 o unigolion ar aelwydydd mewn amddifadedd incwm).

- Mae'r cyfraddau ar gyfer yr hanner canol (yr Amrediad Rhyngchwartel) o'r ACEHI ar draws Gymru yn cwympo rhwng 13 a 35 y cant, ar gyfer y dangosydd hwn. Roedd gan Bowys yr hanner canol mwyaf cul o ACEHI (yn amrywio rhwng 11-20.5 y cant) o'i gymharu i Gasnewydd a oedd y mwyaf gwasgaredig (12-44.5 y cant), wedi'i ddilyn yn agos gan Gaerdydd (11-42.8 y cant).

- Mae’r dangosydd amddifadedd incwm plant yn dilyn patrwm tebyg i un y boblogaeth gyffredinol ym maes incwm MALIC 2014.

- Yn y dangosydd amddifadedd incwm plant roedd pocedi o amddifadedd uchel yng nghymoedd y De a’r dinasoedd mawr a rhai mewn trefi arfordirol yn y Gogledd.

- Yr awdurdod lleol gyda’r gyfran uchaf o ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y dangosydd hwn oedd Caerdydd (20.1 y cant) ac yna Blaenau Gwent (19.1 y cant). Nid oedd gan Bowys unrhyw ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig a dim ond 17.7 y cant yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Roedd gan yr awdurdodau lleol hyn gyfrannau cyfatebol tebyg am y boblogaeth gyffredinol ym maes incwm MALIC 2014.


- O ran y dangosydd amddifadedd incwm plant, yr ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Gorllewin y Rhyl 2, yn Sir Ddinbych.

- Mae 25.7 y cant o blant mewn amddifadedd incwm yn y 10% o ardaloedd bach mwyaf difreintiedig ar gyfer y dangosydd hwn. Mae hyn o’u cymharu â’r ffigur cyfatebol o 21.7 y cant o’r boblogaeth gyffredinol mewn amddifadedd incwm.

- Mae oddeutu hanner y plant mewn amddifadedd incwm wedi’u crynhoi yn y 25.6 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer y dangosydd.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014: Data dangosydd plant

# Dangosydd Amddifadedd Incwm, Canran




© Hawlfraint y Goron 2015 • Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/122/15.16

Tachwedd 2015

OGL

### 3.2 Y dangosydd plant ar aelwydydd mewn amddifadedd incwm, dadansoddiad ACEHI

Mae tabl 3.1 isod yn dangos y deg ardal fach fwyaf difreintiedig (ACEHI) ar gyfer amddifadedd incwm y rhai 0-18 oed (canran). Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r cyfraddau hyn fel mesurau sy'n diffinio lefel tlodi plant mewn unrhyw ardal benodol, a dylid nodi'r wybodaeth ansawdd yn adran 3.5 a throednodiadau[1]:

- Yr ACEHI gyda'r ganran uchaf o blant ar aelwydydd mewn amddifadedd incwm oedd Gorllewin Rhyl 2 yn Sir Ddinbych, gyda 99 y cant[2] o blant ar aelwydydd mewn amddifadedd incwm. Yr ACEHI cyfagos Gorllewin Rhyl 3 sydd â'r ganran ail uchaf.
- Mae'r wyth arall o'r deg ACEHI mwyaf difreintiedig yng nghymoedd y De a'r dinasoedd mawr.
- Mae pedair o'r deg ACEHI mwyaf difreintiedig yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf.

**Tabl 3.1: Y deg ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer plant ar aelwydydd mewn amddifadedd incwm**

| ACEHI | Awdurdod Lleol | Enw'r ACEHI | Canran | Nifer |
|---|---|---|---|---|
| W01000240 | Sir Ddinbych | Gorllewin Rhyl 2 | 99 | 280 |
| W01000241 | Sir Ddinbych | Gorllewin Rhyl 3 | 81 | 315 |
| W01000991 | Pen-y-bont ar Ogwr | Caerau (Pen-y-bont ar Ogwr) 1 | 77 | 210 |
| W01001209 | Rhondda Cynon Taf | Penrhiw-ceibr 1 | 74 | 310 |
| W01000886 | Castell-nedd Port Talbot | Aberafon 4 | 72 | 240 |
| W01001607 | Casnewydd | Alway 2 | 71 | 365 |
| W01001274 | Rhondda Cynon Taf | Tylorstown 1 | 70 | 290 |
| W01001144 | Rhondda Cynon Taf | Abercynon 2 | 69 | 300 |
| W01001222 | Rhondda Cynon Taf | Pen-y-waun 2 | 69 | 315 |
| W01001874 | Caerdydd | Y Sblot 6 | 68 | 240 |

### 3.3 Dosbarthiad y dangosydd plant mewn aelwydydd mewn amddifadedd incwm


Mae'r plot ar y dudalen nesaf yn dangos safleoedd y dangosydd amddifadedd incwm ACEHI (llinell glas golau) a safleoedd ACEHI maes incwm MALIC 2014 ar gyfer pawb (llinell glas tywyll) o'u cymharu â chanran y rhai mewn amddifadedd incwm.

Mae'r plot yn dangos bod patrwm tebyg o ran dosbarthiad rhwng canran y plant mewn amddifadedd incwm a'r boblogaeth ehangach. Fodd bynnag, mae canran y plant mewn amddifadedd incwm yn uwch na'r boblogaeth gyfan. Ar begwn mwyaf difreintiedig y dosbarthiad, mae cynnydd sylweddol yng nghanran y plant mewn amddifadedd incwm. Mae'r ganran yn cael ei haneru yn y 148 safle cyntaf, o 99 y cant yn safle = 1, i 49 y cant yn safle = 148.

[1] Gall rhai ACEHI gynnwys poblogaethau bach o blant, a allai arwain at ganlyniadau annibynadwy ar gyfer y dangosydd yn yr ACEHI honno. Defnyddiwyd amcangyfrifon poblogaeth Ganol 2012 fel yr enwadur ar gyfer y dangosydd hwn, ac maent wedi'u cyhoeddi ar wefan ONS: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/annualsmallareapopulationestimates/mid2017

[2] Cyhoeddwyd dangosydd tebyg (ond nid yn union yr un fath) ar blant mewn teuluoedd incwm isel gan y CThEM (gweler adran 3.5), sy'n darparu ffigur o 62 y cant ar gyfer Gorllewin y Rhyl 2 am gyfnod tebyg. Mae hyn yn ei gwneud yn yr ACEHI ail uchaf yn ôl eu ffigurau, gyda Tylorstown 1 (7fed uchaf yn y tabl uchod) yr uchaf gyda 63.5 y cant. Mae chwech o'r ardaloedd yn nhabl 3.1 yn y 10 uchaf yn y data CThEM hefyd, a'r holl ardaloedd yn nhabl 3.1 yn y 3% o ACEHI gyda'r cyfraddau uchaf yn y data CThEM.

## Siart 3.1 Dosbarthiad y dangosydd plant mewn amddifadedd incwm




Mae Tabl 3.2 isod yn rhoi rhai rhifau sy'n berthnasol i'r plot uchod. Mae oddeutu hanner y plant hynny mewn amddifadedd incwm yn y 25.6 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru (yn ôl y dangosydd hwn). Mae mwy nag un o bob pedwar (25.7 y cant) mewn safle sy'n is neu sy'n gyfwerth â 196, hynny yw, yn y 10% i ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru[3].

## Tabl 3.2: Dosbarthiad plant ar aelwydydd mewn amddifadedd incwm


| Canran y rhai 0-18 oed ar aelwydydd mewn amddifadedd incwm | Canran yr ACEHI yng Nghymru | Graddfeydd amddifadedd incwm (0-18 oed)[3] |
|---:|---:|---:|
| 25.7 | 10% mwyaf difreintiedig | 1 - 196 |
| 42.7 | 20% mwyaf difreintiedig | 1 - 390 |
| 50.0 | 25.6% mwyaf difreintiedig | 1 - 489 |
| 5.5 | 20% lleiaf difreintiedig | 1529 - 1909 |

Mae Siart 3.2 isod yn dangos dosbarthiad plant mewn amddifadedd incwm (canran) ar gyfer pob grŵp MALIC 2014 cyffredinol a ddisgrifir. Mae'r blychau glas yn cynrychioli hanner cyfanswm yr ACEHI ym mhob grŵp MALIC, wedi'i ganoli ar gyfradd canolrif (canol) pob grŵp MALIC. Mae'r llinellau'n dangos yr ystod lawn o gyfraddau mewn ACEHI ar gyfer pob grŵp MALIC, a gall rhai ACEHI gynnwys niferoedd bach o blant, a allai arwain at ganlyniadau annibynadwy.

[3]Efallai na fydd nifer y safleoedd sy'n rhan o'r grwpiau amddifadedd yn cyfateb yn union i ganran yr ACEHI oherwydd data cyfartal. Lle mae data'n gyfartal, mae data yn cael ei gyfrif fel rhan o'r grŵp mwy difreintiedig.

Yn ôl y disgwyl, mae cysylltiad agos rhwng amddifadedd MALIC 2014 cyffredinol a'r dangosydd amddifadedd incwm plant. Roedd y ganran gyfartalog (canolrif) o blant mewn amddifadedd incwm yn y 10% o ACEHI mwyaf difreintiedig yn MALIC 2014 yn 53 y cant o'i gymharu ag 13 y cant yn y 50% o ACEHI lleiaf difreintiedig yn MALIC 2014. Does braidd dim gorgyffwrdd rhwng y blychau glas (sy'n cynrychioli'r "hanner canolig") ar gyfer pob grŵp. Fodd bynnag, mae gan bob grŵp o leiaf un ACEHI â mwy na hanner ei phlant mewn amddifadedd incwm.

## Siart 3.2: Canran y plant ar aelwydydd mewn amddifadedd incwm, fesul grwpiau MALIC 2014





### 3.4 Y dangosydd plant mewn aelwydydd mewn amddifadedd incwm, dadansoddiad awdurdod lleol

Mae Siart 3.3 isod yn dangos dosbarthiad y canrannau o blant ar aelwydydd mewn amddifadedd incwm ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ACEHI ym mhob awdurdod lleol, wedi'i ganoli ar gyfradd canolrif (canol) ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae'r llinellau'n dangos yr ystod lawn o gyfraddau mewn ACEHI ar gyfer pob awdurdod lleol, a gall rhai ACEHI gynnwys niferoedd bach o blant, a allai arwain at ganlyniadau annibynadwy.

Mae amrywiad sylweddol rhwng awdurdodau lleol o ran y cyfraddau canolrif, ond hefyd o fewn awdurdodau lleol o ran ystod y gwerthoedd. Er enghraifft, maent i gyd (heblaw am Bowys) yn cynnwys o leiaf un ACEHI ag oddeutu hanner neu fwy o blant mewn amddifadedd incwm, ac mae pob un (heblaw am Flaenau Gwent) yn cynnwys o leiaf un ACEHI â llai nag un o bob deg plentyn mewn amddifadedd incwm.

**Siart 3.3: Canran y plant ar aelwydydd mewn amddifadedd incwm, fesul awdurdod lleol**




Mae Tabl 3.3 isod yn dangos canran yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol a oedd ym mhob grŵp cronnus sy'n dilyn, ar gyfer y dangosydd amddifadedd incwm plant: 10 y cant, 20 y cant, 30 y cant a 50 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Gellir ystyried bod y dull hwn yn dangos y crynhoad o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel gyfartalog yr amddifadedd.

- Caerdydd oedd yr awdurdod lleol gyda'r gyfran uchaf o ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer amddifadedd incwm plant (20.1 y cant), gyda Blaenau Gwent yn ail (19.1 y cant). Roedd gan y naill a'r llall gyfran gyfatebol debyg o ran y boblogaeth gyffredinol ym maes incwm MALIC 2014.
- Nid oedd gan Bowys unrhyw ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig a dim ond 17.7 y cant yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Merthyr Tudful oedd â'r gyfran uchaf o ACEHI yn y 50 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru (83.3 y cant). Yr ail uchaf oedd Blaenau Gwent, gyda 83.0 y cant o'i ACEHI yn hanner mwyaf difreintiedig Cymru.

## Tabl 3.3: Dosbarthiad ACEHI yn ôl amddifadedd incwm plant, o fewn awdurdodau lleol

| Awdurdod Lleol | Nifer yr ACEHI yn yr awdurdod lleol | % ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig (46 - 99%) | % ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig (37 - 99%) | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig (31 - 99%) | % ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig (22 - 99%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 11.4 | 13.6 | 18.2 | 54.5 |
| Gwynedd | 73 | 4.1 | 4.1 | 6.8 | 31.5 |
| Conwy | 71 | 8.5 | 21.1 | 31.0 | 43.7 |
| Sir Ddinbych | 58 | 12.1 | 17.2 | 24.1 | 48.3 |
| Sir y Fflint | 92 | 1.1 | 8.7 | 18.5 | 38.0 |
| Wrecsam | 85 | 4.7 | 12.9 | 23.5 | 42.4 |
| Powys | 79 | 0.0 | 2.5 | 10.1 | 17.7 |
| Ceredigion | 46 | 2.2 | 6.5 | 8.7 | 30.4 |
| Sir Benfro | 71 | 4.2 | 7.0 | 19.7 | 40.8 |
| Sir Gâr | 112 | 2.7 | 10.7 | 19.6 | 46.4 |
| Abertawe | 148 | 12.2 | 23.6 | 33.8 | 47.3 |
| Castell-nedd Port Talb | 91 | 13.2 | 26.4 | 40.7 | 67.0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 12.5 | 26.1 | 42.0 | 63.6 |
| Bro Morgannwg | 79 | 5.1 | 13.9 | 20.3 | 38.0 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 13.0 | 28.6 | 50.6 | 72.7 |
| Merthyr Tudful | 36 | 16.7 | 30.6 | 44.4 | 83.3 |
| Caerffili | 110 | 10.0 | 22.7 | 35.5 | 70.0 |
| Blaenau Gwent | 47 | 19.1 | 42.6 | 55.3 | 83.0 |
| Torfaen | 60 | 18.3 | 26.7 | 38.3 | 63.3 |
| Sir Fynwy | 56 | 1.8 | 1.8 | 8.9 | 21.4 |
| Casnewydd | 95 | 17.9 | 35.8 | 44.2 | 54.7 |
| Caerdydd | 214 | 20.1 | 33.2 | 42.5 | 52.3 |
| **Cymru** | **1909** | **10.0** | **20.0** | **30.0** | **50.0** |

### 3.5 Gwybodaeth gefndir am y dangosydd plant ar aelwydydd mewn amddifadedd incwm

Diffiniad

Mae’r dangosydd incwm yn ddangosydd cyfansawdd sy’n cynnwys tair elfen: 1) Hawlwyr Budd-dal sy’n Gysylltiedig ag Incwm, 2) Derbynyddion Credyd Treth, 3) Ceiswyr Lloches a Gynorthwyir. Mae’r dangosydd yn adio'r hawlwyr a’u dibynyddion ar gyfer y tair elfen, a fynegir fel canran o gyfanswm y boblogaeth breswyl ar gyfer pob ACEHI, yn seiliedig ar Amcangyfrifon Poblogaeth Ardal Fach Canol-2012 (gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Mae’r cyfrifiadau yn cyfrif unigolion unigryw (h.y. dim ond unwaith y cyfrifir y rhai sy’n hawlio budd-daliadau lluosog). Ar gyfer yr erthygl hon, mae'r dangosydd yn cael ei gyfyngu i'r rhai rhwng 0-18 oed.

Diffinnir hawlwyr Budd-daliadau sy’n Gysylltiedig ag Incwm fel cynnwys hawlwyr Cymhorthdal Incwm, hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith hawlwyr Credyd Pensiwn a hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

Seiliedig ar Incwm ac fe'u cesglir ar gyfer cyfartaledd yr unigolion a oedd yn derbyn y budd-daliadau hyn yn ystod Tachwedd 2012, Chwefror 2013, Mai 2013 ac Awst 2013.

Diffinnir derbynyddion Credyd Treth fel nifer y plant ac oedolion mewn teuluoedd sy'n derbyn Credydau Treth Gwaith a Chredydau Treth Plant sydd ag incwm sy'n llai na 60 y cant o'r incwm canolrif ar gyfer Cymru (Cyn Costau Tai) ac fe'u casglwyd ar gyfer y rhai oedd yn derbyn credydau treth ar 31 Awst 2012.

Mae'r data Ceiswyr Lloches a Gynorthwyir yn cynnwys y rhai a gynorthwywyd dan Adran 95, ar 1 Medi 2014.

Cymharu dros amser

Nid oedd unrhyw newidiadau methodolegol yn y maes incwm rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014. Fodd bynnag, mae newidiadau diweddar i'r gyfundrefn les yn golygu bod trothwyon cymhwysedd a meini prawf rhai budd-daliadau wedi newid. Mae hyn yn golygu na fydd data'r dangosydd yn gallu cael ei gymharu'n agos â blynyddoedd cynharach.

Cyhoeddwyd data dangosydd ar blant mewn aelwydydd ar amddifadedd incwm ar gyfer 2011, 2012 a 2013 ar StatsCymru. Mae'r diffiniad o "blentyn" a ddefnyddiwyd bryd hynny rywfaint yn wahanol i ddata dangosydd 2014. Mae'r data hŷn yn diffinio plant fel plant dibynnol (gyda theulu hawlydd) 0-19 oed, sy'n golygu i blant 16-19 oed eu bod mewn addysg lawn amser. Fodd bynnag, ar gyfer 2014, mae'r data ar hawlwyr a'u dibynyddion yn cael ei rannu yn ôl oedran, ac ar gyfer yr erthygl hon rydym yn cyfeirio at bawb sy'n 0-18 oed fel plant.

Nid ydym wedi cynnwys dadansoddiad o blant mewn amddifadedd incwm dros amser yn yr erthygl hon yn sgîl y newidiadau i'r gyfundrefn les a'r diffiniad o "blentyn" a grybwyllir uchod. Fodd bynnag, er y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli newidiadau absoliwt mewn cyfraddau, mae modd dadansoddi newidiadau cymharol dros amser o hyd. Er enghraifft, i gymharu amddifadedd cymharol rhwng 2011 a 2014, gall defnyddwyr grwpio ACEHI i ddegraddau yn ôl data'r dangosydd perthnasol, ac edrych ar yr ardaloedd hynny sydd wedi symud degraddau i fyny neu i lawr. Felly, byddai ardal sy'n symud o'r trydydd degradd (20-30% o'r mwyaf difreintiedig) yn 2011 i'r degradd cyntaf (10% o'r mwyaf difreintiedig) yn 2014 wedi gwaethygu o ran ei hamddifadedd incwm plant perthynol.

Nodyn ansawdd data

Mae dangosydd amddifadedd incwm MALIC yn defnyddio data gweinyddol wedi'i gyfuno ag amcangyfrifon poblogaeth i ddarparu amcangyfrifon o gyfraddau incwm isel cymharol. Mae mesur amgen o dlodi ardaloedd bach ar gyfer plant sydd wedi'i lunio gan yr Uned Tlodi Plant yn CThEM, sef mesur Plant mewn Teuluoedd Incwm Isel. Mae'n debyg (ond nid yn union yr un fath) o ran y ffordd y mae'n defnyddio cyfrifiadau o hawlwyr budd-daliadau a chredyd treth fel rhifiadur, ond mae'r enwadur a ddefnyddir yn wahanol. Mae CThEM yn defnyddio'r cyfrifon o blant o setiau data Budd-dal Plant. Mae'r naill fesur a'r llall yn dibynnu ar gywirdeb nifer o systemau gweinyddol, ac (ar gyfer MALIC) cywirdeb Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach ONS ar gyfer plant a phobl ifanc 0-18 oed. Cynghorir defnyddwyr i gadw materion ansawdd posibl mewn cof, yn enwedig wrth ddefnyddio data ar gyfer bandiau oedran mwy cyfyng (e.e. 5 mlynedd), ac wrth ddefnyddio gwerthoedd absoliwt. Wrth ddehongli'r data dangosyddion MALIC ar lefel leol, argymhellir bod defnyddwyr yn ceisio defnyddio ffynonellau eraill o dystiolaeth ac yn defnyddio gwybodaeth leol i ategu canfyddiadau. Mae'r nodiadau a ddarparwyd yn yr adroddiad CThEM yr un mor gymwys i'r data dangosydd MALlC (Saesneg yn unig): *"…this measure should not be used to obtain a definitive measure of child poverty in any given area. However, this measure can reliably be used to explore variations in low income…"*

## 4. Dangosydd salwch cyfyngus hirdymor

Mae'r dangosydd salwch cyfyngus hirdymor yn mesur nifer y bobl a ddewisodd yr ymatebion " Ydw, wedi fy nghyfyngu llawer" a "Ydw, wedi fy nghyfyngu ychydig" yng Nghyfrifiad 2011 ac mae'n cael ei drafod yn fanylach yn adran 4.5 isod.

### 4.1. Canlyniadau allweddol

- Mae gan blant cyfradd llawer is o salwch cyfyngus hirdymor, 4,615 fesul 100,000 (sy'n cyfateb i ychydig yn is na 31,000 o blant yng Nghymru sydd â salwch cyfyngus hirdymor) o'i gymharu â chyfradd y boblogaeth gyffredinol, 22,715 fesul 100,000 (sy'n cyfateb i ychydig yn is na 696,000 o bobl yng Nghymru gyda salwch cyfyngus hirdymor).

- Mae'r cyfraddau ar gyfer yr hanner canol (yr Amrediad Rhyngchwartel) o'r ACEHI ar draws Gymru yn cwympo rhwng 3,315 a 5,665 fesul 100,000, ar gyfer y dangosydd hwn. Roedd gan Blaenau Gwent yr hanner canol mwyaf cul o ACEHI (yn amrywio rhwng 3,696 a 5,388 fesul 100,000) o'i gymharu i Fro Morgannwg a oedd y mwyaf gwasgaredig (2,359-5,595 fesul 100,000).

- Ar y cyfan, mae dangosydd salwch cyfyngus hirdymor plant yn dilyn patrwm tebyg i batrwm y boblogaeth gyffredinol ym maes Iechyd MALIC 2014.

- Yn y dangosydd salwch cyfyngus hirdymor, ymysg plant roedd pocedi o amddifadedd uchel yng nghymoedd y De a'r dinasoedd mawr, ac mewn rhai trefi arfordirol yn y Gogledd.

- Yr awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y dangosydd hwn oedd Castell-nedd Port Talbot (28.6 y cant). Roedd hyn yn llawer uwch na'r ffigur cyfatebol (17.6 y cant) am yr ardal hon ym maes Iechyd MALIC 2014.

- Nid oedd gan Wynedd a Sir Fynwy unrhyw ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig.

- Yn y dangosydd salwch cyfyngus hirdymor ymysg plant, yr ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Cathays 5, yng Nghaerdydd[4].


- Mae 17.7 y cant o'r plant sydd â salwch cyfyngus hirdymor yn y 10% o ardaloedd bach mwyaf difreintiedig ar gyfer y dangosydd hwn (yr ACEHI safle 1 - 191).

- Mae oddeutu hanner y plant sydd â salwch cyfyngus hirdymor wedi'u crynhoi yn y 34.2 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer y dangosydd.

[4] Gall rhai ACEHI gynnwys poblogaethau bach o blant, a allai arwain at ganlyniadau annibynadwy ar gyfer y dangosydd yn yr ACEHI dan sylw, e.e. Cathays 5 yng Nghaerdydd a oedd yn cynnwys 97 o blant yn unig. Defnyddiwyd amcangyfrifon poblogaeth Cyfrifiad 2011 fel yn enwadur ar gyfer y dangosydd hwn, ac maent wedi'u cyhoeddi gan yr ONS yn: http://www.ons.gov.uk/ons/about-ons/business-transparency/freedom-of-information/what-can-i-request/published-ad-hoc-data/census/health/ct0449-2011-census.xls

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014: Data dangosydd plant

# Dangosydd Salwch Cyfyngus Hirdymor, Canran




© Hawlfraint y Goron 2015 • Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/122/15.16
Tachwedd 2015

Mae Tabl 4.1 isod yn dangos cyfradd y deg ardal fach (ACEHI) mwyaf difreintiedig ar gyfer salwch cyfyngus hirdymor ymysg y rhai 0-18 oed (fesul 100,000)[4]:

- Yr ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer salwch cyfyngus hirdymor ymysg plant oedd Cathays 5 yng Nghaerdydd, gyda chyfradd o 15,464 fesul 100,000. Fodd bynnag, poblogaeth fach o blant (97) oedd yn yr ACEHI hon, a allai gael effaith anghymesur ar y dangosydd.
- Mae pump o’r deg ACEHI mwyaf difreintiedig yn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot, ac mae dau o’r rhain yn ACEHI cyfagos (Gorllewin Sandfields 4 a Dwyrain Sandfields 2).
- Mae wyth o’r deg ACEHI mwyaf difreintiedig yn y De. Mae’r ddau arall yng Nghonwy yn y Gogledd.

## Tabl 4.1: Y deg ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer plant â salwch cyfyngus hirdymor[4]

| ACEHI | Awdurdod Lleol | Enw'r ACEHI | Canran | Nifer |
|---|---|---|---|---|
| W01001722 | Caerdydd | Cathays 5 | 15,464 | 15 |
| W01001928 | Conwy | Abergele Pensarn 2 | 11,250 | 18 |
| W01000964 | Castell-nedd Port Talbot | Gorllewin Sandfields 4 | 11,196 | 44 |
| W01000958 | Castell-nedd Port Talbot | Dwyrain Sandfields 2 | 11,165 | 46 |
| W01000896 | Castell-nedd Port Talbot | Gorllewin Llansawel 1 | 10,504 | 50 |
| W01000993 | Pen-y-bont ar Ogwr | Caerau (Pen-y-bont ar Ogwr) 3 | 10,000 | 39 |
| W01000913 | Castell-nedd Port Talbot | Canol Coedffranc 2 | 9,767 | 21 |
| W01000994 | Pen-y-bont ar Ogwr | Caerau (Pen-y-bont ar Ogwr) 4 | 9,756 | 36 |
| W01000886 | Castell-nedd Port Talbot | Aberafon 4 | 9,627 | 31 |
| W01000149 | Conwy | Bae Cinmel 1 | 9,559 | 26 |

### 4.2. Dosbarthiad y dangosydd salwch cyfyngus hirdymor ar gyfer plant

Mae Tabl 4.2 isod yn dangos bod hanner y plant sydd â salwch cyfyngus hirdymor yn y 34.2 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn ôl y dangosydd hwn. Mae bron i un o bob pump (17.7 y cant) mewn safle is neu gyfwerth â 191, hynny yw, yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.


## Tabl 4.2: Dosbarthiad y plant â salwch cyfyngus hirdymor

| Canran y rhai 0-18 oed â salwch cyfyngus hirdymor | Canran yr ACEHI yng Nghymru | Graddfeydd salwch cyfyngus hirdymor (0-18 oed) |
|---|---|---|
| 17.7 | 10% mwyaf difreintiedig | 1 - 191 |
| 32.2 | 20% mwyaf difreintiedig | 1 - 382 |
| 50.0 | 34.2% mwyaf difreintiedig | 1 - 652 |
| 9.4 | 20% lleiaf difreintiedig | 1529 - 1909 |

Mae Siart 4.1 yn dangos dosbarthiad cyfraddau salwch cyfyngus hirdymor plant ar gyfer pob grŵp MALIC 2014. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner nifer yr ACEHI ym mhob grŵp MALIC, wedi'i ganoli ar gyfradd canolrif (canol) pob grŵp MALIC. Mae'r llinellau'n dangos yr ystod lawn o gyfraddau yn ACEHI ar gyfer pob grŵp MALIC, a gall rhai ACEHI gynnwys niferoedd bach o blant, a allai arwain at ganlyniadau annibynadwy.

Mae perthynas rhwng amddifadedd cyffredinol MALIC 2014 a'r dangosydd salwch cyfyngus hirdymor. Y gyfradd salwch cyfyngus hirdymor cyfartalog (canolrif) ar gyfer plant yn y 10% mewn ACEHI mwyaf difreintiedig yn MALIC 2014 oedd 6,280 fesul 100,000 o'i gymharu â 3,626 fesul 100,000 yn y 50% ACEHI lleiaf difreintiedig yn MALIC 2014.

**Siart 4.1: Cyfraddau plant â salwch cyfyngus hirdymor, fesul grwpiau MALIC 2014**





## 4.3. Y dangosydd salwch cyfyngus hirdymor ymysg plant, dadansoddiad awdurdod lleol

Mae Siart 4.2 yn dangos dosbarthiad cyfraddau salwch cyfyngus hirdymor ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner nifer yr ACEHI ym mhob awdurdod lleol, wedi'i ganoli ar gyfradd canolrif (canol) pob awdurdod lleol. Mae'r llinellau'n dangos yr ystod lawn o gyfraddau mewn ACEHI ar gyfer pob awdurdod lleol, a gall rhai ACEHI gynnwys niferoedd bach o blant, a allai arwain at ganlyniadau annibynadwy.

Mae amrywiad sylweddol rhwng awdurdodau lleol o ran y cyfraddau canolrif, ond hefyd o fewn awdurdodau lleol o ran ystod y gwerthoedd. Er enghraifft, maent i gyd yn cynnwys o leiaf un ACEHI â chyfradd o 6,000 fesul 100,000 o leiaf â salwch cyfyngus hirdymor, ac maent i gyd (heblaw Merthyr Tudful) yn cynnwys o leiaf un ACEHI sydd â hyd at 2,000 fesul 100,000 â salwch cyfyngus hirdymor.

## Siart 4.2: Cyfraddau plant â salwch cyfyngus hirdymor, fesul awdurdod lleol




Mae Tabl 4.3 drosodd yn dangos, ar gyfer cyfraddau salwch cyfyngus hirdymor, bod canran ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol a oedd ym mhob grŵp cronnus sy'n dilyn, ar gyfer y dangosydd amddifadedd incwm plant: 10 y cant, 20 y cant, 30 y cant a 50 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Gellir ystyried bod y dull hwn yn dangos y crynhoad o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel gyfartalog amddifadedd.

- Yr awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer salwch cyfyngus hirdymor oedd Castell-nedd Port Talbot (28.6 y cant), ac yna Pen-y-bont ar Ogwr (26.1 y cant).
- Nid oedd gan Wynedd a Sir Fynwy unrhyw ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig. Dim ond 31.8 y cant o'r ACEHI yn Ynys Môn oedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Castell-nedd Port Talbot oedd â'r gyfran uchaf o ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (71.4 y cant). Yr ail uchaf oedd Pen-y-bont ar Ogwr, gyda 70.5 y cant o'i ACEHI yn hanner mwyaf difreintiedig Cymru.

### 4.4. Gwybodaeth gefndir am y dangosydd salwch cyfyngus hirdymor

Mae'r dangosydd salwch cyfyngus hirdymor yn mesur nifer y bobl sydd â salwch cyfyngus hirdymor fesul 100,000 o bobl (h.y. yng Nghyfrifiad 2011 yr ymatebion "Ydw, wedi fy nghyfyngu llawer" ac "Ydw, wedi fy nghyfyngu ychydig", ac mae'n seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011 (gan yr ONS). Newidiwyd y cwestiwn a oedd yn ymwneud â salwch cyfyngus hirdymor rhwng Cyfrifiad 2011 a 2001. Felly, ni ellir gwneud cymariaethau uniongyrchol â data hŷn.

## Tabl 4.3 Dosbarthiad ACEHI yn ôl salwch cyfyngus hirdymor plant, o fewn awdurdodau lleol

| Awdurdod Lleol | Nifer yr ACEHI yn yr awdurdod lleol | % ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig (cyfraddau 6,810-15,465) | % ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig (cyfraddau 5,980-15,465) | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig (cyfraddau 5,355-15,465) | % ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig (cyfraddau 4,380-15,465) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 2.3 | 9.1 | 18.2 | 31.8 |
| Gwynedd | 73 | 0.0 | 2.7 | 11.0 | 32.9 |
| Conwy | 71 | 8.5 | 18.3 | 31.0 | 50.7 |
| Sir Ddinbych | 58 | 15.5 | 22.4 | 34.5 | 50.0 |
| Sir y Fflint | 92 | 2.2 | 9.8 | 25.0 | 45.7 |
| | | | | | |
| Wrecsam | 85 | 9.4 | 20.0 | 29.4 | 49.4 |
| Powys | 79 | 3.8 | 12.7 | 16.5 | 38.0 |
| Ceredigion | 46 | 4.3 | 15.2 | 21.7 | 39.1 |
| Sir Benfro | 71 | 7.0 | 19.7 | 32.4 | 50.7 |
| Sir Gâr | 112 | 10.7 | 21.4 | 33.9 | 58.0 |
| | | | | | |
| Abertawe | 148 | 12.8 | 18.2 | 26.4 | 50.0 |
| Castell-nedd Port Talbo | 91 | 28.6 | 35.2 | 49.5 | 71.4 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 26.1 | 34.1 | 46.6 | 70.5 |
| Bro Morgannwg | 79 | 12.7 | 20.3 | 29.1 | 36.7 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 12.3 | 27.3 | 35.7 | 58.4 |
| | | | | | |
| Merthyr Tudful | 36 | 13.9 | 41.7 | 47.2 | 69.4 |
| Caerffili | 110 | 8.2 | 26.4 | 39.1 | 60.0 |
| Blaenau Gwent | 47 | 6.4 | 14.9 | 25.5 | 53.2 |
| Torfaen | 60 | 6.7 | 23.3 | 38.3 | 66.7 |
| Sir Fynwy | 56 | 0.0 | 14.3 | 21.4 | 35.7 |
| | | | | | |
| Casnewydd | 95 | 11.6 | 17.9 | 28.4 | 40.0 |
| Caerdydd | 214 | 6.5 | 15.0 | 21.5 | 40.2 |
| | | | | | |
| **Cymru** | **1909** | **10.0** | **20.0** | **30.0** | **50.0** |

Yn 2001, roedd y cwestiwn yn gofyn "A oes gennych chi unrhyw salwch hirdymor, problem iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eich gweithgareddau dyddiol neu'r gwaith y gallwch chi ei wneud?" a'r ymateb a oedd ar gael oedd "Oes" neu "Nac oes".

Yn 2011, newidiwyd y cwestiwn i "A yw'ch gweithgareddau dyddiol yn cael eu cyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, o leiaf 12 mis?" a'r ymatebion a oedd ar gael oedd, "Ydw, wedi fy nghyfyngu llawer", "Ydw, wedi fy nghyfyngu ychydig" neu "Nac ydw".

Dolenni i'r cyfrifiad llawn (Saesneg) yma: http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/census-2001/about-census-2001/census-2001-forms/index.html (2001).

http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/how-our-census-works/how-we-took-the-2011-census/how-we-collected-the-information/questionnaires--delivery--completion-and-return/2011-census-questions/index.html (2011).

Am ragor o wybodaeth am ddadansoddiadau dros amser, gweler adran 3.5 a'r Canllawiau.

## 5. Dangosydd pwysau geni isel

Mae'r dangosydd pwysau geni isel yn mesur canran y genedigaethau unigol byw (hynny yw, heb gynnwys gefeilliaid a genedigaethau lluosog eraill) lle mae'r pwysau geni yn llai na 2.5 kg ac mae'n cael ei drafod ymhellach yn adran 5.5 isod.

Noder, mae'r adran hon ar bwysau geni isel yn llai o'i chymharu ag adrannau eraill yn yr Erthygl hon. Mae hyn oherwydd bod llawer o ACEHI (364 i 1909) wedi'u hatal oherwydd y posibilrwydd o ddatgelu. Mae'r holl ACEHI a gafodd eu hatal o fewn y cwintel lleiaf difreintiedig, ac felly dylid cymryd gofal wrth ymdrin â'r dadansoddiad yn yr adran hon.


### 5.1. Canlyniadau allweddol

- Canran y babanod a gafodd eu geni gyda phwysau geni isel oedd 5.6 y cant, sef bron I 19,000 o fabanod yng Nghymru.
- Mae'r cyfraddau ar gyfer yr hanner canol (yr Amrediad Rhyngchwartel) o'r ACEHI ar draws Gymru yn cwympo rhwng 3.9 a 6.9 y cant, ar gyfer y dangosydd hwn. Roedd gan Blaenau Gwent yr hanner canol mwyaf cul o ACEHI (5.6-7.6 y cant) o'i gymharu i Ferthyr Tudful a oedd y mwyaf gwasgaredig (4.4-8.2 y cant).
- Yn y dangosydd pwysau geni isel, datgelwyd lefelau uchel o amddifadedd yng nghymoedd y De a'r dinasoedd mwy.
- Ar y cyfan, mae'r dangosydd pwysau geni isel yn dilyn patrwm tebyg i'r boblogaeth gyffredinol ym maes Iechyd MALIC 2014 a'r dangosydd salwch cyfyngus hirdymor yn yr erthygl hon) er nad oedd yr un crynhoad o amddifadedd yn awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr ag yn y dangosydd salwch cyfyngus hirdymor).
- Yr awdurdod lleol gyda'r gyfran uchaf o ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ar gyfer y dangosydd hwn oedd Merthyr Tudful (25.0 y cant), ac yna Rhondda Cynon Taf (21.4 y cant). Roedd gan yr awdurdodau lleol hyn y gyfran uchaf o ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig hefyd ym maes Iechyd MALIC 2014.
- Ar gyfer y dangosydd pwysau geni isel, yr ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Cathays 6 yng Nghaerydd[5], gyda chanran o 13.6. Yr ACEHI cyfagos yn Cathays 5 oedd yr ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer y dangosydd iechyd arall a ddadansoddwyd yn yr erthygl hon (ar salwch cyfyngus hirdymor).
- Mae 18.4 y cant o'r rhai a gafodd eu geni gyda phwysau geni isel yn y 10% mwyaf difreintiedig o ardaloedd bach yn y dangosydd hwn (ACEHI safle 1-191).
- Mae oddeutu hanner y rhai a gafodd eu geni gyda phwysau geni isel wedi'u crynhoi yn y 32.1 y cant i ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer y dangosydd, o'u cymharu â 34.2 y cant ar gyfer salwch cyfyngus hirdymor. Felly, mae amddifadedd ar gyfer pwysau geni isel ychydig yn fwy crynodedig nag amddifadedd ar gyfer salwch cyfyngus hirdymor.

[5] Efallai bod rhai ACEHI yn cynnwys niferoedd bach o fabanod, a allai gael effaith anghymesur ar y dangosydd yn yr ACEHI, e.e. Cathays 6 yng Nghaerdydd, a oedd yn cynnwys 59 genedigaeth yn unig yn y cyfnod 2004-2013.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014: Data dangosydd plant

# Dangosydd Pwysau Geni Isel, Canran




© Hawlfraint y Goron 2015 • Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/122/15.16
Tachwedd 2015

OGL

### 5.2. Y dangosydd pwysau geni isel, dadansoddiad ACEHI

Mae Tabl 5.1 isod yn dangos cyfradd y deg ardal fach (ACEHI) fwyaf difreintiedig ar gyfer pwysau geni isel (canran):

- Yr ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer y rhai a gafodd eu geni gyda phwysau geni isel oedd Cathays 6[5] yng Nghaerdydd, gyda chanran o 13.6.
- Roedd pedair o'r deg ACEHI mwyaf difreintiedig yn awdurdodau lleol trefol Caerdydd a Chasnewydd yn y De.
- Mae tair arall o'r deg ACEHI mwyaf difreintiedig yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf.
- Mae naw o'r deg ACEHI mwyaf difreintiedig yn y De.
- Yn y deg ACEHI mwyaf difreintiedig, mae dwy ohonynt yn ACEHI cyfagos o fewn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf (Tylorstown 1 a Tylorstown 2).

**Tabl 5.1: Y deg ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer babanod gyda phwysau geni isel[1]**

| ACEHI | Awdurdod Lleol | Enw'r ACEHI | Canran | Nifer |
|---|---|---|---|---|
| W01001724 | Caerdydd | Cathays 6 | 13.6 | 8 |
| W01000032 | Ynys Môn | Moelfre | 13.0 | 10 |
| W01001662 | Casnewydd | Pilgwenlli 4 | 12.9 | 31 |
| W01001085 | Bro Morgannwg | Y Bont-faen 4 | 12.8 | 11 |
| W01001722 | Caerdydd | Cathays 5 | 12.5 | 6 |
| W01001274 | Rhondda Cynon Taf | Tylorstown 1 | 12.4 | 31 |
| W01001275 | Rhondda Cynon Taf | Tylorstown 2 | 12.3 | 34 |
| W01001605 | Casnewydd | Allt-yr-ynn 6 | 12.0 | 19 |
| W01001471 | Blaenau Gwent | Rasa 2 | 11.8 | 20 |
| W01001232 | Rhondda Cynon Taf | Porth 4 | 11.8 | 20 |

### 5.3. Dosbarthiad y dangosydd pwysau geni isel

Mae Tabl 5.2 yn dangos bod oddeutu hanner y rhai a gafodd eu geni gyda phwysau geni isel i'w canfod yn y 32.1 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn ôl y dangosydd hwn. Mae bron i un o bob pump (18.4 y cant) i'w canfod ar safle is neu gyfwerth ag 191, hynny yw, yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**Tabl 5.2: Dosbarthiad y babanod a gafodd eu geni gyda phwysau geni isel**

| Canran y rhai sy'n cael eu geni â phwysau geni isel | Canran yr ACEHI yng Nghymru | Graddfeydd pwysau geni isel (0-18 oed) |
|---|---|---|
| 18.4 | 10% mwyaf difreintiedig | 1 - 191 |
| 33.6 | 20% mwyaf difreintiedig | 1 - 382 |
| 50.0 | 32.1% mwyaf difreintiedig | 1 - 612 |
| 7.4 | 20% lleiaf difreintiedig | 1529 - 1909 |

### 5.4. Y dangosydd pwysau geni isel, dadansoddiad awdurdod lleol

Mae Tabl 5.3 isod yn dangos ar gyfer y dangosydd pwysau geni isel, canran yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol a oedd ym mhob grŵp cronnus sy'n dilyn, ar gyfer y dangosydd amddifadedd incwm plant: 10 y cant, 20 y cant, 30 y cant a 50 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru[2]. Gellir ystyried bod y dull hwn yn dangos y crynhoad o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na chyfartaledd lefel yr amddifadedd.

- Yr awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y rhai gyda phwysau geni isel oedd Merthyr Tudful (25.0 y cant), ac yna Rhondda Cynon Taf (21.4 y cant).

- Blaenau Gwent oedd â'r gyfran uchaf o ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (78.7 y cant). Yr ail uchaf oedd Rhondda Cynon Taf eto, gyda 70.1 y cant o'i ACEHI yn hanner mwyaf difreintiedig Cymru.

## Tabl 5.3: Dosbarthiad ACEHI yn ôl pwysau geni isel, o fewn awdurdodau lleol[6]

| Awdurdod Lleol | Nifer yr ACEHI yn yr awdurdod lleol | % ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig (8.3-13.6%) | % ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig (7.2-13.6%) | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig (6.5-13.6%) | % ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig (2.0-13.6%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 9.1 | 15.9 | 31.8 | 45.5 |
| Gwynedd | 73 | 4.1 | 15.1 | 17.8 | 35.6 |
| Conwy | 71 | 9.9 | 16.9 | 22.5 | 47.9 |
| Sir Ddinbych | 58 | 13.8 | 24.1 | 37.9 | 50.0 |
| Sir y Fflint | 92 | 5.4 | 13.0 | 23.9 | 43.5 |
| Wrecsam | 85 | 7.1 | 22.4 | 29.4 | 52.9 |
| Powys | 79 | 5.1 | 10.1 | 16.5 | 36.7 |
| Ceredigion | 46 | 6.5 | 15.2 | 17.4 | 32.6 |
| Sir Benfro | 71 | 9.9 | 19.7 | 23.9 | 36.6 |
| Sir Gâr | 112 | 8.9 | 16.1 | 25.0 | 50.9 |
| Abertawe | 148 | 9.5 | 22.3 | 28.4 | 47.3 |
| Castell-nedd Port Talbo | 91 | 6.6 | 14.3 | 25.3 | 45.1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 5.7 | 15.9 | 29.5 | 53.4 |
| Bro Morgannwg | 79 | 5.1 | 12.7 | 24.1 | 40.5 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 21.4 | 35.1 | 48.1 | 70.1 |
| Merthyr Tudful | 36 | 25.0 | 36.1 | 52.8 | 63.9 |
| Caerffili | 110 | 10.0 | 23.6 | 38.2 | 60.0 |
| Blaenau Gwent | 47 | 19.1 | 29.8 | 53.2 | 78.7 |
| Torfaen | 60 | 8.3 | 21.7 | 26.7 | 48.3 |
| Sir Fynwy | 56 | 7.1 | 14.3 | 26.8 | 39.3 |
| | 0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Casnewydd | 95 | 18.9 | 29.5 | 36.8 | 62.1 |
| Caerdydd | 214 | 7.5 | 15.9 | 27.6 | 46.7 |
| **Cymru** | **1909** | **10.0** | **20.0** | **30.0** | **50.0** |

[6]Mae terfynau'r ystod data wedi'u hatal yn yr Erthygl hon oherwydd y potensial am ddatgeliad.

## 5.5. Gwybodaeth gefndir am y dangosydd pwysau geni isel

Mae’r dangosydd pwysau geni isel yn mesur canran y genedigaethau unigol byw (hynny yw, heb gynnwys gefeilliaid a genedigaethau lluosog eraill) lle mae’r pwysau geni yn llai na 2.5 kg. Mae’r data’n seiliedig ar y cofrestriadau geni rhwng 2004-2013 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Gellir cysylltu pwysau geni isel â ffordd o fyw ac iechyd y fam, yn ogystal ag achosi problemau i’r plentyn yn ddiweddarach mewn bywyd.

Nid oedd unrhyw newidiadau methodolegol yn y dangosydd pwysau geni isel rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014 ac felly gellir ei gymharu â blynyddoedd cynharach. Fodd bynnag, noder os cynhelir dadansoddiad dros amser ar y data pwysau geni isel, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli ardaloedd sydd wedi symud degraddau i fyny neu i lawr. Gan fod y data ar gyfer 2014 a blynyddoedd blaenorol yn cael ei gymryd dros gyfartaledd 10 mlynedd, bydd sawl blwyddyn yn gorgyffwrdd rhwng y setiau data. Am ragor o wybodaeth am ddadansoddi dros amser, gweler adran 3.5 a’r Canllawiau.

## 6. Dangosydd Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol

Mae'r dangosydd Lefel 2 Cyfnod Allweddol 2 cynhwysol yn mesur canran y plant 15 oed sy'n cyflawni cyfwerth â 5 gradd A* - C ar lefel TGAU (gan gynnwys Mathemateg a Saesneg/Cymraeg) ac fe'i trafodir yn fanylach yn adran 6.5 isod.


Noder bod data ar ddangosyddion addysg eraill (gan gynnwys sgôr pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 2 a sgôr pwyntiau wedi'u capio Cyfnod Allweddol 4 ar gael ar wefan StatsCymru: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-Indicator-Analysis/indicatordata-by-lowerlayersuperoutputareas-education

### 6.1. Canlyniadau allweddol

- Canran y plant oed 15 oedd yn cyflawni dangosydd Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol oedd 51.8 y cant, sef dros 53,000 yng Nghymru dros dair blynedd.
- Mae'r cyfraddau ar gyfer yr hanner canol (yr Amrediad Rhyngchwartel) o'r ACEHI ar draws Gymru yn cwympo rhwng 39.4 a 65.2 y cant, ar gyfer y dangosydd hwn. Roedd gan Blaenau Gwent yr hanner canol mwyaf cul o ACEHI (yn amrywio rhwng 29.8 a 45.0 y cant) o'i gymharu i Gaerdydd a oedd y mwyaf gwasgaredig (31.7-68.1 y cant).
- Yn y dangosydd Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol roedd pocedi o amddifadedd uchel yn y De ac mewn rhai trefi yn y Gogledd. Ar y cyfan, mae hyn yn batrwm tebyg i faes Addysg MALIC 2014.
- Yr awdurdod lleol gyda'r gyfran uchaf o ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y dangosydd hwn oedd Merthyr Tudful 30.6 y cant) ac yna Blaenau Gwent (25.5 y cant). Yr awdurdodau lleol hyn oedd â'r gyfran uchaf o ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig ym maes Addysg MALIC 2014 hefyd. Nid oedd gan Bowys unrhyw ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig.
- Ar gyfer y dangosydd Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol, yr ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd St James 3 yng Nghaerffili. Dyma oedd yr ACEHI mwyaf difreintiedig ym maes Addysg MALIC 2014 hefyd.
- Mae 16.9 y cant o ddisgyblion nad ydynt yn cyflawni'r safon Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol yn y 10% o ardaloedd bach mwyaf difreintiedig ar gyfer y dangosydd hwn (ACEHI safle 1-191).
- Mae oddeutu hanner y plant oed 15 hynny nad ydynt yn cyflawni'r safon Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol wedi'u crynhoi yn y 35.3 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer y dangosydd.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014: Data dangosydd plant

# Dangosydd Lefel 2 CA4 Cynhwysol, Canran




© Hawlfraint y Goron 2015 • Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/122/15.16

Tachwedd 2015

### 6.2. Dangosydd Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol, dadansoddiad ACEHI

Mae Tabl6.1 isod yn dangos cyfradd y deg ardal fach (ACEHI) fwyaf difreintiedig ar gyfer y dangosydd Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol[7], sy'n mesur y ganran sy'n cyflawni cyfwerth â 5 gradd A* – C ar lefel TGAU (gan gynnwys Mathemateg a Saesneg/Cymraeg):

- Yr ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer y dangosydd Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol oedd St James 3 yng Nghaerffili, gyda chanran o 11.3.
- Mae saith o'r deg ACEHI mwyaf difreintiedig yn y De ac mae dwy o'r tair arall yn Wrecsam, yn y Gogledd.
- Mae'r ddwy ACEHI yn Wrecsam yn y deg ACEHI mwyaf difreintiedig yn ACEHI cyfagos (Queensway 1 a Wynnstay).

**Tabl 6.1: Y deg ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer plant oed 15 yn cyflawni Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol[7]**

| ACEHI | Awdurdod Lleol | Enw'r ACEHI | Canran | Nifer |
|---|---|---|---|---|
| W01001421 | Caerffili | St. James 3 | 11.3 | 8.0 |
| W01000413 | Wrecsam | Queensway 1 | 12.9 | 8.0 |
| W01001740 | Caerdydd | Trelái 4 | 15.1 | 8.0 |
| W01000592 | Sir Benfro | Aberdaugleddau: Hubberston 2 | 15.1 | 7.8 |
| W01000991 | Pen-y-bont ar Ogwr | Caerau (Pen-y-bont ar Ogwr) 1 | 15.7 | 8.0 |
| W01001807 | Caerdydd | Llanrhymni 6 | 15.9 | 13.0 |
| W01001180 | Rhondda Cynon Taf | Glyncoch 1 | 16.1 | 7.2 |
| W01001473 | Blaenau Gwent | Sirhywi 2 | 16.9 | 9.0 |
| W01001457 | Blaenau Gwent | Gogledd Glynebwy 2 | 17.0 | 12.0 |
| W01000425 | Wrecsam | Wynnstay | 17.3 | 16.4 |

### 6.3. Dosbarthiad y dangosydd Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol

Mae Tabl6.2 isod yn dangos bod oddeutu hanner y plant oed 15 hynny **nad** ydynt yn cyflawni'r safon Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol yn y 35.3 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn ôl y dangosydd hwn. Mae bron i un o bob chwech (16.9 y cant) mewn safle is na neu gyfwerth ag 191, hynny yw, yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**Tabl 6.2: Dosbarthiad y rhai oed 15 nad ydynt yn cyflawni safon Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol**


| Canran y disgyblion nad ydynt yn cyflawni Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol | Canran yr ACEHI yng Nghymru | Graddfeydd Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol |
|---|---|---|
| 16.9 | 10% mwyaf difreintiedig | 1 - 191 |
| 30.8 | 20% mwyaf difreintiedig | 1 - 382 |
| 50.0 | 35.5% mwyaf difreintiedig | 1 - 673 |
| 9.5 | 20% lleiaf difreintiedig | 1529 - 1909 |

[7] Efallai bod rhai ACEHI yn cynnwys niferoedd bach o blant oed 15, a allai gael effaith anghymesur ar y dangosydd yn yr ACEHI Mae data ar gyfer saith (allan o 1909) ACEHI wedi'u hatal yn ein tablau StatsCymru a'r Erthygl hon oherwydd y posibilrwydd o ddatgelu.

Mae Siart 6.1 isod yn dangos dosbarthiad y rhai sy'n cyflawni'r safon Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol ar gyfer pob grŵp MALIC 2014. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner nifer yr ACEHI ym mhob grŵp MALIC, wedi'i ganoli ar gyfradd canolrif (canol) pob grŵp MALIC. Mae'r llinellau'n dangos yr ystod lawn o gyfraddau mewn ACEHI ar gyfer pob grŵp MALIC, a gall rhai ACEHI gynnwys niferoedd bach o blant oed 15, a allai arwain at ganlyniadau annibynadwy.

Mae perthynas rhwng amddifadedd cyffredinol MALIC 2014 a'r plant oed 15 sy'n cyflawni safon Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol. Y ganran gyfartalog (canolrif) o blant oed 15 a oedd yn cyflawni'r safon Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol yn y 10% o ACEHI mwyaf difreintiedig yn MALIC 2014 oedd 28.3 y cant o'i gymharu â 64.0 y cant yn y 50% o ACEHI lleiaf difreintiedig yn MALIC 2014. Noder, ar gyfer y dangosydd hwn, bod amddifadedd yn cynyddu gyda chanran ostyngol (hynny yw, tuag at waelod y plot).

## Siart 6.1: Canran y plant oed 15 a oedd yn cyflawni Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol, fesul grwpiau MALIC 2014





### 6.4. Dangosydd Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol, dadansoddiad awdurdod lleol

Mae Siart 6.2 isod yn dangos dosbarthiad y canrannau o blant sy'n cyflawni Lefel 2 Cyfnod 4 Allweddol cynhwysol ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ACEHI ym mhob awdurdod lleol, wedi'i ganoli ar gyfradd canolrif (canol) pob awdurdod lleol. Mae'r llinellau'n dangos yr ystod lawn o gyfraddau mewn ACEHI ar gyfer pob awdurdod lleol, a gall rhai ACEHI gynnwys niferoedd bach o blant oed 15, a allai arwain at ganlyniadau annibynadwy. Mae amddifadedd yn cynyddu gyda chanran ostyngol (hynny yw, tuag at waelod y plot).

Mae mwy o amrywiad (nag ar gyfer dangosyddion eraill yn yr Erthygl hon) o fewn a rhwng awdurdodau lleol o ran yr ystod y mae'r bocsys glas (sy'n cynrychioli'r "hanner canolig") yn ei gwmpasu ar gyfer pob awdurdod lleol (e.e. mae gan Gaerdydd amrediad o 36.4 pwynt canran).

## Siart 6.2: Canrannau Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol, fesul awdurdod lleol




Mae Tabl 6.3 isod yn dangos, ar gyfer Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol, bod canran ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol a oedd ym mhob grŵp cronnus sy'n dilyn, ar gyfer y dangosydd amddifadedd incwm plant: 10 y cant, 20 y cant, 30 y cant a 50 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Gellir ystyried bod y dull hwn yn dangos crynhoad yr ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel gyfartalog amddifadedd.

- Yr awdurdod lleol gyda'r gyfran uchaf o ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y dangosydd Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol oedd Merthyr Tudful (30.6 y cant), ac yna Blaenau Gwent (25.5 y cant).
- Nid oedd gan Bowys unrhyw ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig. Dim ond 22.8 y cant o'r ACEHI ym Mhowys oedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Blaenau Gwent oedd â'r gyfran uchaf o ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (87.2 y cant). Yr ail uchaf oedd Merthyr Tudful, gyda 86.1 y cant o'i ACEHI yn hanner mwyaf difreintiedig Cymru.

## Tabl 6.3: Dosbarthiad ACEHI yn ôl plant oed 15 yn cyflawni Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol, fesul awdurdod lleol [8]

| Awdurdod Lleol | Nifer yr ACEHI yn yr awdurdod lleol | % ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig (11.3 - 30.1%) | % ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig (11.3 - 36.0%) | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig (11.3 - 42.3%) | % ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig (11.3 - 52.2%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 4.5 | 13.6 | 22.7 | 40.9 |
| Gwynedd | 73 | 2.7 | 9.6 | 11.0 | 31.5 |
| Conwy | 71 | 5.6 | 14.1 | 19.7 | 38.0 |
| Sir Ddinbych | 58 | 5.2 | 13.8 | 24.1 | 51.7 |
| Sir y Fflint | 92 | 3.3 | 7.6 | 13.0 | 34.8 |
| | | | | | |
| Wrecsam | 85 | 12.9 | 18.8 | 30.6 | 51.8 |
| Powys | 79 | 0.0 | 5.1 | 10.1 | 22.8 |
| Ceredigion | 46 | 4.3 | 8.7 | 13.0 | 37.0 |
| Sir Benfro | 71 | 5.6 | 8.5 | 21.1 | 31.0 |
| Sir Gâr | 112 | 1.8 | 11.6 | 22.3 | 43.8 |
| | | | | | |
| Abertawe | 148 | 6.8 | 17.6 | 27.7 | 42.6 |
| Castell-nedd Port Talbo | 91 | 4.4 | 13.2 | 22.0 | 46.2 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 10.2 | 22.7 | 33.0 | 59.1 |
| Bro Morgannwg | 79 | 8.9 | 16.5 | 25.3 | 40.5 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 16.2 | 29.9 | 44.8 | 70.8 |
| | | | | | |
| Merthyr Tudful | 36 | 30.6 | 38.9 | 55.6 | 86.1 |
| Caerffili | 110 | 13.6 | 26.4 | 38.2 | 65.5 |
| Blaenau Gwent | 47 | 25.5 | 44.7 | 68.1 | 87.2 |
| Torfaen | 60 | 13.3 | 25.0 | 46.7 | 68.3 |
| Sir Fynwy | 56 | 1.8 | 5.4 | 10.7 | 23.2 |
| | | | | | |
| Casnewydd | 95 | 11.6 | 27.4 | 36.8 | 61.1 |
| Caerdydd | 214 | 21.0 | 35.5 | 43.5 | 56.5 |
| | | | | | |
| **Cymru** | 1909 | 10.0 | 20.0 | 30.0 | 50.0 |

### 6.5. Gwybodaeth gefndir am y dangosydd Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol

Mae'r dangosydd CA4 Lefel 2 Cynhwysol yn mesur canran y plant 15 oed sy'n llwyddo i gael cymwysterau cyfwerth â 5 gradd A*-C mewn TGAU (gan gynnwys Mathemateg a Saesneg/Cymraeg). Mae'r data wedi ei seilio ar Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion a Chronfa Ddata Arholiadau Cymru, yn cwmpasu'r blynyddoedd academaidd 2010/11 - 2012/13. Mae'r dangosydd hwn yn cael ei gynnwys fel mesur o ddisgyblion sy'n cwblhau addysg ysgol orfodol gyda sgiliau rhifedd a llythrennedd, ond yn cynnwys ysgolion a gynhelir yn unig. . Noder, ar gyfer y dangosydd hwn, bod amddifadedd yn cynyddu gyda chanran ostyngol.

Bwriedir i'r dangosydd hwn ategu'r dangosydd Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio Cyfnod Allweddol 4 (nad yw wedi'i gynnwys yn yr Erthygl ond mae data ar gael ar StatsCymru). Disodlodd y Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio a Lefel 2 Cynhwysol y Sgôr Pwyntiau Ehangach Cyfnod Allweddol 4 (a ddefnyddiwyd ar gyfer MALIC 2011), gan eu bod yn mesur elfennau cyflenwol amddifadedd ar ddiwedd addysg orfodol. Felly, mae hwn yn ddangosydd newydd ar gyfer MALIC 2014 ac felly ni ellir ei gymharu â MALIC 2011.

Am ragor o wybodaeth am ddadansoddiad dros amser, gweler adran 3.5 a'r Canllawiau (linc).

[8]Mae terfynau'r ystod data wedi'u hatal yn yr Erthygl hon oherwydd y posibilrwydd o ddatgelu.

## 7. Dangosydd absenoliaeth mynych

Mae'r dangosydd absenoliaeth mynych yn mesur canran y disgyblion ysgol gynradd ac uwchradd sy'n colli 15 y cant neu fwy o sesiynau ysgol (a ddefnyddir fel procsi ar gyfer absenoliaeth mynych) ac fe'i trafodir yn fanylach yn adran 7.5 isod.


### 7.1. Canlyniadau allweddol

- Canran yr absenoliaeth mynych ar gyfer plant oed ysgol oedd 9.9 y cant, sef mwy na 105,000 o ddisgyblion.
- Yn y dangosydd absenoliaeth mynych, cafwyd lefelau uchel o amddifadedd yn y De, gyda phob un o'r deg ACEHI mwyaf difreintiedig yn y rhanbarth hwn.
- Mae'r cyfraddau ar gyfer yr hanner canol (yr Amrediad Rhyngchwartel) o'r ACEHI ar draws Gymru yn cwympo rhwng 5.8 a 12.8 y cant, ar gyfer y dangosydd hwn. Roedd gan Wynedd yr hanner canol mwyaf cul o ACEHI (yn amrywio rhwng 5.5 a 8.9 y cant) o'i gymharu i Gaerdydd a oedd y mwyaf gwasgaredig (4.9 I 15.0 y cant).
- Roedd amddifadedd yn y dangosydd hwn yn fwy crynodedig yn y De o'i gymharu â'r dangosydd Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol a'r maes Addysg yn MALIC 2014.
- Yr awdurdod lleol gyda'r gyfran uchaf o ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ar gyfer y dangosydd hwn, oedd Blaenau Gwent (21.3 y cant) ac yna Caerdydd a Rhondda Cynon Taf (18.2 y cant). Roedd gan Flaenau Gwent un o'r cyfrannau uchaf o ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig o'r dangosydd Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol hefyd ac ym maes Addysg 2014. Nid oedd gan Gonwy, Powys, Ceredigion a Sir Fynwy unrhyw ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig.
- Ar gyfer y dangosydd absenoliaeth mynych, yr ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Castell 2 Gogledd yn Abertawe[9].
- Mae 21.9 y cant o blant oedran ysgol ag absenoliaeth mynych yn y 10% o ardaloedd bach mwyaf difreintiedig ar gyfer y dangosydd hwn (ACEHI safle 1-191).
- Mae oddeutu hanner y plant oedran ysgol hynny ag absenoliaeth mynych yn y 29.2 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer y dangosydd o'u cymharu â 35.3 y cant ar gyfer y safon Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol. Felly, mae amddifadedd ar gyfer absenoliaeth mynych yn fwy crynodedig nag amddifadedd ar gyfer y safon Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 cynhwysol.

[9] Gall rhai ACEHI gynnwys niferoedd bach o blant oedran ysgol, a allai arwain at ganlyniadau annibynadwy ar gyfer y dangosydd yn yr ACEHI honno, e.e. Castell 2 Gogledd yn Abertawe, a oedd yn cynnwys 31 o blant oedran ysgol yn unig.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014: Data dangosydd plant

# Dangosydd Absenoldeb Mynych, Canran




© Hawlfraint y Goron 2015 • Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/122/15.16

Tachwedd 2015

### 7.2. Y dangosydd absenoliaeth mynych, dadansoddiad ACEHI

Mae Tabl 7.1 isod yn dangos cyfradd y deg ardal fach (ACEHI) fwyaf difreintiedig ar gyfer absenoliaeth mynych ymysg plant oedran ysgol (canran) [9]:

- Yr ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer absenoliaeth mynych ymysg plant oedran ysgol oedd Castell 2 Gogledd yn Abertawe, gyda chanran o 38.7. Fodd bynnag, roedd yr ACEHI hon yn cynnwys poblogaeth fach o blant (31) a allai gael effaith anghymesur ar y dangosydd.
- Mae pump o'r ACEHI mwyaf difreintiedig yn awdurdodau lleol Abertawe a Chaerdydd sy'n drefol yn bennaf.
- Mae pob un o'r deg ACEHI mwyaf difreintiedig yn y De.

**Tabl 7.1: Y deg ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer absenoliaeth mynych [9]**

| ACEHI | Awdurdod Lleol | Enw'r ACEHI | Canran | Nifer |
|---|---|---|---|---|
| W01001955 | Abertawe | Gogledd Castell 2 | 38.7 | 12.0 |
| W01001922 | Caerdydd | Cathays 9 | 33.3 | 16.0 |
| W01001209 | Rhondda Cynon Taf | Penrhiwceiber 1 | 28.0 | 229.7 |
| W01001144 | Rhondda Cynon Taf | Abercynon 2 | 27.4 | 208.0 |
| W01001473 | Blaenau Gwent | Sirhywi 2 | 26.6 | 154.8 |
| W01001661 | Casnewydd | Pilgwenlli 3 | 26.4 | 248.2 |
| W01000862 | Abertawe | Townhill 1 | 24.4 | 205.0 |
| W01001867 | Caerdydd | Rhymni 5 | 24.4 | 196.8 |
| W01000833 | Abertawe | Penderi 4 | 24.2 | 206.0 |
| W01001386 | Caerffili | Tredegar Newydd 3 | 24.2 | 190.1 |

### 7.3. Dosbarthiad y dangosydd absenoliaeth mynych

Mae Tabl 7.2 isod yn dangos bod oddeutu hanner y plant oedran ysgol hynny ag absenoliaeth mynych yn y 29.2 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru (yn ôl y dangosydd hwn). Mae mwy nag un o bob pump (21.9 y cant) i'w canfod mewn safle llai na neu gyfwerth â 191, hynny yw, yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**Tabl 7.2: Dosbarthiad y plant oedran ysgol ag absenoliaeth mynych**


| Canran absenoliaeth mynych | Canran yr ACEHI yng Nghymru | Graddfeydd absenoliaeth mynych |
|---|---|---|
| 21.9 | 10% mwyaf difreintiedig | 1 - 191 |
| 38.1 | 20% mwyaf difreintiedig | 1 - 382 |
| 50.0 | 29.2% mwyaf difreintiedig | 1 - 495 |
| 7.1 | 20% lleiaf difreintiedig | 1529 - 1909 |

Mae Siart 7.1 drosodd yn dangos dosbarthiad canrannau absenoliaeth mynych ar gyfer pob grŵp MALIC 2014 a ddisgrifir. Mae'r blychau glas yn cynrychioli hanner cyfanswm yr ACEHI ym mhob grŵp MALIC, wedi'i ganoli ar gyfradd canolrif (canol) pob grŵp MALIC. Mae'r llinellau'n dangos yr ystod lawn o gyfraddau yn ACEHI ar gyfer pob grŵp MALIC, a gall rhai ACEHI gynnwys niferoedd bach o blant oedran ysgol, a allai arwain at ganlyniadau annibynadwy.

.

Mae perthynas rhwng amddifadedd cyffredinol MALIC 2014 a’r dangosydd absenoliaeth mynych. Roedd y ganran gyfartalog (canolrif) ar gyfer absenoliaeth mynych yn y 10% o ACEHI mwyaf difreintiedig yn MALIC 2014 yn 17.7 y cant o’i gymharu â 5.9 y cant yn y 50% o ACEHI lleiaf difreintiedig yn MALIC 2014.

## Siart 7.1: Canran y plant oedran ysgol gydag absenoliaeth mynych, fesul grwpiau MALIC 2014





### 7.4. Absenoliaeth mynych, dadansoddiad awdurdod lleol

Mae Siart 7.2 isod yn dangos dosbarthiad canrannau absenoliaeth mynych ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae’r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ACEHI ym mhob awdurdod lleol, wedi’i ganoli ar gyfradd canolrif (canol) pob awdurdod lleol. Mae’r llinellau’n dangos yr ystod lawn o gyfraddau yn ACEHI ar gyfer pob awdurdod lleol, a gall rhai ACEHI gynnwys niferoedd bach o blant oedran ysgol, a allai arwain at ganlyniadau annibynadwy.

Mae amrywiad sylweddol rhwng awdurdodau lleol o ran y cyfraddau canolrif, ond hefyd o fewn awdurdodau lleol o ran yr ystod o werthoedd. Er enghraifft, maent i gyd (heblaw am Geredigion) yn cynnwys o leiaf un ACEHI gydag o leiaf 15 y cant o absenoliaeth mynych, ac maent i gyd yn cynnwys o leiaf un ACEHI gyda hyd at 5 y cant o absenoliaeth mynych.

Mae Tabl 7.3 isod yn dangos canran yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol a oedd ym mhob grŵp cronnus sy’n dilyn, ar gyfer y dangosydd amddifadedd incwm plant: 10 y cant, 20 y cant, 30 y cant a 50 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y dangosydd absenoliaeth mynych.

## Siart 7.2: Canrannau absenoliaeth mynych, fesul awdurdod lleol




## Tabl 7.3: Dosbarthiad ACEHI yn ôl plant oedran ysgol gydag absenoliaeth mynych, fesul awdurdod lleol

| Awdurdod Lleol | Nifer yr ACEHI yn yr awdurdod lleol | % ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig (16.6-38.7%) | % ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig (13.6-38.7%) | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig (11.9-38.7%) | % ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig (9.0-38.7%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 2.3 | 9.1 | 22.7 | 47.7 |
| Gwynedd | 73 | 5.5 | 6.8 | 6.8 | 24.7 |
| Conwy | 71 | 0.0 | 2.8 | 15.5 | 35.2 |
| Sir Ddinbych | 58 | 6.9 | 10.3 | 19.0 | 32.8 |
| Sir y Fflint | 92 | 2.2 | 10.9 | 22.8 | 34.8 |
| Wrecsam | 85 | 4.7 | 11.8 | 21.2 | 32.9 |
| Powys | 79 | 0.0 | 3.8 | 12.7 | 30.4 |
| Ceredigion | 46 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 19.6 |
| Sir Benfro | 71 | 7.0 | 15.5 | 26.8 | 46.5 |
| Sir Gâr | 112 | 9.8 | 19.6 | 31.3 | 67.0 |
| Abertawe | 148 | 16.2 | 31.1 | 38.5 | 54.1 |
| Castell-nedd Port Tal | 91 | 11.0 | 27.5 | 37.4 | 65.9 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 10.2 | 22.7 | 31.8 | 54.5 |
| Bro Morgannwg | 79 | 2.5 | 10.1 | 19.0 | 40.5 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 18.2 | 34.4 | 48.1 | 71.4 |
| Merthyr Tudful | 36 | 8.3 | 22.2 | 36.1 | 63.9 |
| Caerffili | 110 | 15.5 | 28.2 | 39.1 | 66.4 |
| Blaenau Gwent | 47 | 21.3 | 38.3 | 57.4 | 76.6 |
| Torfaen | 60 | 3.3 | 5.0 | 23.3 | 50.0 |
| Sir Fynwy | 56 | 0.0 | 3.6 | 5.4 | 25.0 |
| Casnewydd | 95 | 16.8 | 32.6 | 42.1 | 52.6 |
| Caerdydd | 214 | 18.2 | 30.4 | 40.2 | 53.7 |
| **Cymru** | **1909** | **10.0** | **20.0** | **30.0** | **50.0** |

Gellir ystyried bod y dull hwn yn dangos crynhoad yr ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na chyfartaledd lefel yr amddifadedd.

- Yr awdurdod lleol gyda'r gyfran uchaf o ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer absenoliaeth mynych oedd Blaenau Gwent (21.3 y cant) ac yna Caerdydd a Rhondda Cynon Taf (18.2 y cant).
- Nid oedd gan Gonwy, Powys, Ceredigion a Sir Fynwy unrhyw ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig.
- Nid oedd gan Geredigion unrhyw ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig a dim ond 19.6 y cant yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Blaenau Gwent oedd â'r gyfran uchaf o ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (76.6 y cant). Yr ail uchaf oedd Rhondda Cynon Taf eto, gyda 71.4 y cant o'i ACEHI yn hanner mwyaf difreintiedig Cymru.

### 7.5. Gwybodaeth gefndir am y dangosydd absenoliaeth mynych

Mae'r dangosydd absenoldeb mynych yn mesur canran y disgyblion ysgol gynradd ac uwchradd sy'n colli 15 y cant neu fwy o sesiynau ysgol (a ddefnyddir fel procsi ar gyfer absenoliaeth mynych). Mae'r data yn seiliedig ar y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion sy'n cwmpasu'r blynyddoedd academaidd 2010/11 – 2012/13. Mae'r data'n seiliedig ar yr holl ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n mynychu ysgol a gynhelir. Dim ond ysgolion a gynhelir sydd wedi'u cynnwys yn y dangosydd.

Newidiwyd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i lunio'r dangosydd hwn rhwng MALIC 2014 a MALIC 2011. Mae'r ddau ddangosydd absenoliaeth o MALIC 2011 wedi'u disodli yn MALIC 2014 gyda dangosydd unigol ar absenoliaeth mynychu sy'n cwmpasu absenoliaeth ysgolion cynradd ac uwchradd. Felly, ni ellir gwneud cymariaethau â data hŷn.

Am ragor o wybodaeth am ddadansoddiad dros amser, gweler adran 3.5 a'r Canllawiau.

## 8. Dangosydd aelwydydd gorlawn


Mae’r dangosydd aelwydydd gorlawn yn mesur a yw llety aelwyd yn orlawn, ar sail nifer yr ystafelloedd gwely. Mae nifer yr ystafelloedd gwely gofynnol yn cael ei dynnu o nifer yr ystafelloedd gwely yn llety’r aelwyd i gael y gyfradd defnyddio ystafelloedd ac fe’i trafodir yn fanylach yn adran 8.5 isod.

### 8.1. Canlyniadau allweddol

- Mae gan blant cyfradd uwch o fyw ar aelwydydd gorlawn, 9.2 y cant (a oedd yn cyfateb i dros 61,500 o aelwydydd gorlawn â phlant yng Nghymru), o’i gymharu â’r boblogaeth gyffredinol, 5.5 y cant (a oedd yn cyfateb i dros 166,300 o aelwydydd gorlawn yng Nghymru).
- Mae'r cyfraddau ar gyfer yr hanner canol (yr Amrediad Rhyngchwartel) o'r ACEHI ar draws Gymru yn cwympo rhwng 5.1 a 12.0 y cant, ar gyfer y dangosydd hwn. Roedd gan Bowys yr hanner canol mwyaf cul o ACEHI (yn amrywio rhwng 4.6 a 8.4 y cant) o'i gymharu i Gaerdydd a oedd y mwyaf gwasgaredig (5.3 i 18.3 y cant).
- O ran plant ar aelwydydd gorlawn, roedd pocedi o amddifadedd uchel yng nghymoedd y De a’r dinasoedd mawr, ac mewn rhai trefi yn y Gogledd. Roedd dinasoedd mawr yn y De yn dilyn patrwm tebyg i’r hyn a welir ym maes Tai MALIC 2014.
- Yr awdurdod lleol gyda’r gyfran uchaf o ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y dangosydd hwn oedd Caerdydd (34.1 y cant) ac yna Merthyr Tudful (19.4 y cant). Roedd gan Gaerdydd y gyfran uchaf o ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig ym maes Tai MALIC 2014. Nid oedd gan Ynys Môn unrhyw ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig.
- O ran plant ar aelwydydd gorlawn, yr ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Butetown1, yng Nghaerdydd.
- Mae 23.4 y cant o blant sy’n byw ar aelwydydd gorlawn yn y 10% o ardaloedd bach mwyaf difreintiedig ar gyfer y dangosydd hwn.
- Mae oddeutu hanner y plant hynny sy’n byw ar aelwydydd gorlawn wedi’u crynhoi yn y 27.3 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer y dangosydd hwn.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014: Data dangosydd plant

# Dangosydd Aelwydydd Gorlawn, Canran




© Hawlfraint y Goron 2015 • Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/122/15.16
Tachwedd 2015

## 8.2. Y dangosydd aelwydydd gorlawn ymysg plant, dadansoddiad ACEHI

Mae'r Tabl 8.1 isod yn dangos y gyfradd o ardaloedd bach (ACEHI) mwyaf difreintiedig ar gyfer y dangosydd gorlawn ymysg y rhai 0-18 oed (canran) [10]:

- Yr ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer gorlenwi ymysg plant oedd Butetown 1 yng Nghaerdydd, gyda chyfradd o 50.7 y cant.
- Mae naw o'r deg ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer gorlenwi plant yn awdurdod lleol Caerdydd.
- Mae'r ACEHI mwyaf difreintiedig yn grynodedig iawn yng Nghaerdydd, gyda thair ACEHI gyfagos yn Butetown a phedair ACEHI gyfagos arall (Cathays 9, Cathays 6, Cathays 7 a Phlasnewydd 4) yn y deg uchaf.
- Mae pob un o'r deg ACEHI mwyaf difreintiedig yn y De-ddwyrain.

**Tabl 8.1: Y deg ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer plant ar aelwydydd gorlawn[10]**

| ACEHI | Awdurdod Lleol | Enw'r ACEHI | Canran | Nifer |
|---|---|---|---|---:|
| W01001699 | Caerdydd | Butetown 1 | 50.7 | 300 |
| W01001952 | Caerdydd | Butetown 8 | 48.2 | 66 |
| W01001922 | Caerdydd | Cathays 9 | 46.0 | 29 |
| W01001942 | Caerdydd | Butetown 3 | 45.3 | 120 |
| W01001941 | Caerdydd | Cathays 11 | 38.2 | 34 |
| W01001724 | Caerdydd | Cathays 6 | 37.3 | 19 |
| W01001725 | Caerdydd | Cathays 7 | 37.1 | 39 |
| W01001662 | Casnewydd | Pilgwenlli 4 | 34.5 | 121 |
| W01001832 | Caerdydd | Plasnewydd 4 | 34.2 | 25 |
| W01001856 | Caerdydd | Glan-yr-afon 2 | 32.2 | 127 |

## 8.3. Dosbarthiad y dangosydd aelwydydd gorlawn ar gyfer plant

Mae Tabl 8.2 yn dangos bod oddeutu hanner y plant hynny sy'n byw ar aelwydydd gorlawn yn y 27.3 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn ôl y dangosydd hwn. Mae mwy nag un o bob pump (23.4%) mewn safle is neu gyfwerth â 191, hynny yw, yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. O fewn y 10% o ACEHI mwyaf difreintiedig, mae 38.2 y cant (73 o 191) yn awdurdod lleol Caerdydd.

**Tabl 8.2: Dosbarthiad y plant ar aelwydydd gorlawn**


| Canran y rhai 0-18 oed mewn cartrefi gorlawn | Canran yr ACEHI yng Nghymru | Graddfeydd cartrefi gorlawn (oed 0-18) |
|---:|---:|---:|
| 23.4 | 10% mwyaf difreintiedig | 1 - 191 |
| 39.8 | 20% mwyaf difreintiedig | 1 - 382 |
| 50.1 | 27.3% mwyaf difreintiedig | 1 - 552 |
| 5.8 | 20% lleiaf difreintiedig | 1529 - 1909 |

[10] Gall rhai ACEHI gynnwys poblogaethau bach o blant, a allai arwain at ganlyniadau annibynadwy ar gyfer y dangosydd yn yr ACEHI honno. Defnyddiwyd amcangyfrifon poblogaeth Cyfrifiad 2011 fel yr enwadur ar gyfer y dangosydd hwn, ac maent wedi'u cyhoeddi ar wefan ONS: http://www.ons.gov.uk/ons/about-ons/business-transparency/freedom-of-information/what-can-i-request/published-ad-hoc-data/census/housing-and-accommodation/ct0446-2011-census.xls

Mae Siart 8.1 yn dangos dosbarthiad plant ar aelwydydd gorlawn (canran) ar gyfer pob grŵp MALIC 2014 a ddisgrifir. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner nifer yr ACEHI ym mhob grŵp MALIC, wedi'i ganoli ar gyfradd canolrif (canol) pob grŵp MALIC. Mae'r llinellau'n dangos yr ystod lawn o gyfraddau mewn ACEHI ar gyfer pob grŵp MALIC, a gall rhai ACEHI gynnwys niferoedd bach o blant, a allai arwain at ganlyniadau annibynadwy.

Mae perthynas rhwng amddifadedd cyffredinol MALIC 2014 a'r dangosydd aelwydydd gorlawn ar gyfer plant. Y ganran gyfartalog (canolrif) ar gyfer plant sy'n byw ar aelwydydd gorlawn yn y 10% o ACEHI mwyaf difreintiedig yn MALIC 2014 oedd 15.0 y cant o'i gymharu â 5.4 y cant yn y 50% o ACEHI lleiaf difreintiedig yn MALIC 2014. Fodd bynnag, mae gan bob grŵp o leiaf un ACEHI gyda mwy na 30% o'i phlant ar aelwydydd gorlawn.

### Siart 8.1: Canran y plant ar aelwydydd gorlawn, fesul grwpiau MALIC 2014





## 8.4. Y dangosydd aelwydydd gorlawn ymysg plant, dadansoddiad awdurdod lleol

Mae Siart 8.2 isod yn dangos dosbarthiad y canrannau o blant sy'n byw ar aelwydydd gorlawn ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ACEHI ym mhob awdurdod lleol, wedi'i ganoli ar gyfradd canolrif (canol) pob awdurdod lleol. Mae'r llinellau'n dangos yr ystod lawn o gyfraddau mewn ACEHI ar gyfer pob awdurdod lleol, a gall rhai ACEHI gynnwys niferoedd bach o blant, a allai arwain at ganlyniadau annibynadwy.

Mae llai o amrywiad (nag ar gyfer dangosyddion eraill yn yr Erthygl hon) o fewn a rhwng awdurdodau lleol o ran y cyfraddau canolrif ac mae'r holl focsys glas (sy'n cynrychioli'r "hanner canolig") ar gyfer pob awdurdod lleol yn gorgyffwrdd. Mae Caerdydd a Merthyr Tudful yn nodedig gyda chyfradd canolrif o fwy nag un o bob deg o blant yn byw ar aelwydydd gorlawn.

## Siart 8.2: Canran y plant ar aelwydydd gorlawn, fesul awdurdod lleol




Mae Tabl 8.3 isod yn dangos canran yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol a oedd ym mhob grŵp cronnus sy'n dilyn, ar gyfer y dangosydd amddifadedd incwm plant: 10 y cant, 20 y cant, 30 y cant a 50 y cant o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y dangosydd aelwydydd gorlawn. Gellir ystyried bod y dull hwn yn dangos crynhoad yr ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na chyfartaledd lefel yr amddifadedd.

- Yr awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer plant sy'n byw ar aelwydydd gorlawn oedd Caerdydd (34.1 y cant) ac yna Merthyr Tudful (19.4 y cant).
- Nid oedd gan Ynys Môn unrhyw ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig.
- Dim ond 27.8 y cant o'r ACEHI ym Mhowys oedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Blaenau Gwent oed â'r gyfran uchaf o ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (72.3 y cant). Yr ail uchaf oedd Merthyr Tudful, gyda 72.2 y cant o'r ACEHI yn hanner mwyaf difreintiedig Cymru.
- Dangosodd Caerdydd y patrwm mwyaf gwasgaredig o amddifadedd. Hynny yw, mae'r cyfraddau ar gyfer ei hanner canol ACEHI (yr Amrediad Rhyngchwartel) yn cael eu lledaenu ar draws yr ystod ehangaf. Roedd hyn hefyd yn wir i raddau llai ar gyfer ardaloedd trefol mawr eraill (ee Abertawe, Casnewydd a Wrecsam).

## Tabl 8.3: Dosbarthiad ACEHI yn ôl plant ar aelwydydd gorlawn, fesul awdurdod lleol

| Awdurdod Lleol | Nifer yr ACEHI yn yr awdurdod lleol | % ACEHI yn y 10% mwyaf difreintiedig (16.2 – 50.7%) | % ACEHI yn y 20% mwyaf difreintiedig (13.2 – 50.7%) | % ACEHI yn y 30% mwyaf difreintiedig (11.1 – 50.7%) | % ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig (8.1 – 50.7%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 0.0 | 4.5 | 6.8 | 38.6 |
| Gwynedd | 73 | 5.5 | 15.1 | 37.0 | 63.0 |
| Conwy | 71 | 8.5 | 18.3 | 28.2 | 46.5 |
| Sir Ddinbych | 58 | 12.1 | 20.7 | 27.6 | 44.8 |
| Sir y Fflint | 92 | 9.8 | 19.6 | 30.4 | 46.7 |
| Wrecsam | 85 | 18.8 | 28.2 | 32.9 | 55.3 |
| Powys | 79 | 1.3 | 5.1 | 10.1 | 27.8 |
| Ceredigion | 46 | 8.7 | 17.4 | 26.1 | 50.0 |
| Sir Benfro | 71 | 1.4 | 9.9 | 22.5 | 50.7 |
| Sir Gâr | 112 | 0.9 | 11.6 | 20.5 | 46.4 |
| Abertawe | 148 | 10.1 | 25.0 | 33.8 | 48.0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 1.1 | 6.6 | 17.6 | 44.0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 2.3 | 10.2 | 19.3 | 34.1 |
| Bro Morgannwg | 79 | 2.5 | 5.1 | 12.7 | 31.6 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 2.6 | 9.7 | 20.1 | 47.4 |
| Merthyr Tudful | 36 | 19.4 | 33.3 | 55.6 | 72.2 |
| Caerffili | 110 | 8.2 | 18.2 | 30.9 | 60.0 |
| Blaenau Gwent | 47 | 8.5 | 25.5 | 38.3 | 72.3 |
| Torfaen | 60 | 11.7 | 31.7 | 43.3 | 60.0 |
| Sir Fynwy | 56 | 3.6 | 12.5 | 23.2 | 41.1 |
| | 0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Casnewydd | 95 | 16.8 | 26.3 | 42.1 | 52.6 |
| Caerdydd | 214 | 34.1 | 48.6 | 54.7 | 63.6 |
| **Cymru** | **1909** | **10.0** | **20.0** | **30.0** | **50.0** |

### 8.5. Gwybodaeth gefndir am y dangosydd aelwydydd gorlawn

Mae'r dangosydd hwn yn mesur a yw llety aelwyd yn orlawn (ar sail nifer yr ystafelloedd gwely). Defnyddir oedran aelodau'r aelwyd a'u perthynas â'i gilydd i benderfynu ar nifer yr ystafelloedd gwely sydd eu hangen arnynt, ar sail fformiwla safonol. Mae nifer yr ystafelloedd gwely gofynnol yn cael ei dynnu o nifer yr ystafelloedd gwely yn llety'r aelwyd i gael y gyfradd defnyddio ystafelloedd. Er enghraifft, mae cyfradd defnyddio ystafelloedd o -1 yn golygu bod gan yr aelwyd un ystafell wely yn llai na'r hyn sy'n ofynnol. Mae'r data wedi'i seilio ar ddata Cyfrifiad 2011 (gan ONS).

Diffinnir ystafell wely fel unrhyw ystafell y bwriadwyd iddi gael ei defnyddio fel ystafell wely pan adeiladwyd yr eiddo, neu unrhyw ystafell sydd wedi'i haddasu i'w defnyddio'n barhaol fel ystafell wely. Mae hefyd yn cynnwys yr holl ystafelloedd y bwriadwyd iddynt gael eu defnyddio fel ystafell wely, hyd yn oed oes nad ydynt yn cael eu defnyddio fel ystafell wely ar adeg y cyfrifiad. Cyfrifir fflatiau un ystafell a fflatiau stiwdio fel un ystafell wely.

Ni ellir cymharu'r dangosydd aelwydydd gorlawn ar gyfer MALIC 2014 gyda MALIC 2011. Yn MALIC 2011, defnyddiwyd dangosydd seiliedig ar aelwydydd gorlawn (mesur ystafelloedd) ac nid oedd hyn yn cynnwys unrhyw aelwydydd myfyrwyr. Am ragor o wybodaeth am ddadansoddiad dros amser, gweler adran 3.5 a'r Canllawiau.

Mae dolenni i ragor o wybodaeth am fethodoleg Cyfrifiad ar gael yn:
http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/census-data/2011-census-user-guide/quality-and-methods/quality/quality-notes-and-clarifications/index.html

## 9. Dadansoddiad o ddosbarthiad plant ar draws grwpiau amddifadedd ar gyfer meysydd MALIC 2014

Mae Tabl 9.1 yn dangos dosbarthiad y rhai 0-18 oed ar draws grwpiau amddifadedd MALIC, hynny yw, grwpiau o ACEHI sy'n cael eu categoreiddio yn ôl eu safle amddifadedd. Mae hyn yn cael ei wneud ar gyfer MALIC 2014 cyffredinol ac ar gyfer y meysydd canlynol hefyd: diogelwch cymunedol, yr amgylchedd ffisegol a mynediad daearyddol i wasanaethau. Gellir ystyried bod y meysydd hyn yn disgrifio'r ardal leol (yn gyffredinol pa mor beryglus, llygredig neu anhygyrch yw'r ardal), yn hytrach na chyfleu nodweddion y bobl neu'r aelwydydd yn yr ardal. Mae'r dadansoddiadau isod yn rhoi syniad o'r ffordd y mae'r boblogaeth blant yng Nghymru wedi'i dosbarthu ar draws y gwahanol gategorïau amddifadedd o ardaloedd.

### Tabl 9.1: Dosbarthiad plant rhwng grwpiau amddifadedd ar gyfer meysydd MALIC 2014

*Canran yr holl blant*

| Grwpiau amddifadedd ar gyfer ACEHI | MALlC 2014 Cyffredinol | Parth diogelwch cymunedol | Parth amgylchedd ffisegol | Parth mynediad at wasanaethau |
|---|---|---|---|---|
| 10% mwyaf difreintiedig | 12.0 | 10.6 | 11.1 | 9.3 |
| 20% mwyaf difreintiedig | 22.8 | 21.5 | 20.7 | 19.3 |
| 30% mwyaf difreintiedig | 33.2 | 31.9 | 30.7 | 30.0 |
| 50% mwyaf difreintiedig | 53.1 | 52.3 | 50.9 | 50.9 |
| 50% lleiaf difreintiedig | 46.9 | 47.7 | 49.1 | 49.1 |

- Mae cyfran uwch o blant yn byw yn y 10% o ACEHI mwyaf difreintiedig yn MALIC 2014 (12.0 y cant) na'r disgwyl pe baent wedi'u dosbarthu'n gyfartal. Dim ond 46.9 y cant o'r rhai 0-18 oed sy'n byw yn y 50% o ACEHI lleiaf difreintiedig yn MALIC 2014.
- Mae canran ychydig yn uwch o blant yn byw yn y 10% i ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer meysydd diogelwch cymunedol (10.6 y cant) ac amgylchedd ffisegol (11.1 y cant) MALIC 2014 na'r disgwyl pe baent wedi'u dosbarthu'n gyfartal.
- Mae canran ychydig yn is o blant yn byw yn y 10% o ACEHI mwyaf difreintiedig o ACEHI ar gyfer maes mynediad daearyddol i wasanaethau (9.3 y cant) MALIC 2014 na'r disgwyl pe baent wedi'u dosbarthu'n gyfartal.

## 10. Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth gefndir am MALlC yn y ffynonellau canlynol:

- Tudalen we MALlC
- MALlC - Data dangosyddion blynyddol
- MALlC 2014 - Prif Adroddiad
- MALlC 2014 - Canllaw
- MALlC 2014 - Tudalennau We Ryngweithiol
- MALlC 2014 - Frequently Asked Questions (Saesneg yn unig)
- MALlC 2014 Technical Report (Saesneg yn unig)
- MALlC 2014: A guide to analysing deprivation in rural areas (Saesneg yn unig)

Mae Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn paratoi mynegeion amddifadedd hefyd, gan gynnwys peth gwybodaeth am blant:

- [Lloegr - adroddiad a linc i is-fynegai am blant] https://www.gov.uk/government/statistics/english-indices-of-deprivation-2015
- [Yr Alban] https://www2.gov.scot/Topics/Statistics/SIMD
- [Gogledd Iwerddon] https://www.nisra.gov.uk/statistics/deprivation/northern-ireland-multiple-deprivation-measure-2010-nimdm2010

Ar 11 Rhagfyr bydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru, a fydd ar gael ar y ddolen ganlynol: https://llyw.cymru/monitor-llesiant-plant-phobl-ifanc-cymru

Y bwriad yw mai hon yw'r gyntaf mewn cyfres o Erthyglau i gyd-fynd â'r data Dangosyddion blynyddol, ac rydym yn croesawu adborth ar bynciau, cynnwys a fformat yr Erthyglau. Gellir anfon adborth at: ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru

## 11. Nodiadau ar ddefnyddio erthyglau ystadegol

Yn gyffredinol, mae erthyglau ystadegol yn ymwneud â dadansoddiadau unigol lle nad oes diweddariadau wedi'u trefnu ar eu cyfer, yn y tymor byr o leiaf, a'u diben yw gwneud dadansoddiadau o'r fath ar gael i gynulleidfa ehangach na fyddai'n bosibl fel arall. Maent yn cael eu defnyddio'n bennaf i gyhoeddi dadansoddiadau sy'n archwiliadol mewn rhyw ffordd, er enghraifft:

- Cyflwyno cyfres arbrofol newydd o ddata;
- Dadansoddiad rhannol o fater sy'n rhoi man cychwyn defnyddiol ar gyfer ymchwil bellach ond sy'n ddadansoddiad defnyddiol ynddo'i hun;
- Tynnu sylw at ymchwil a wnaed gan sefydliadau eraill, a gomisiynwyd gan naill ai Lywodraeth Cymru neu fel arall, lle mae'n ddefnyddiol i dynnu sylw at y casgliadau, neu i adeiladu ymhellach ar yr ymchwil;
- Dadansoddiad lle na fydd y canlyniadau o ansawdd mor uchel o bosibl â'r rhai yn ein cyhoeddiadau a bwletinau ystadegol rheolaidd, ond lle gellir dod i gasgliadau ystyrlon o'r canlyniadau o hyd.

Lle mae ansawdd yn peri problem, gall hyn godi yn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:

- gallu nodi'n gywir y cyfnod amser a ddefnyddiwyd (fel y gall ddigwydd wrth ddefnyddio ffynhonnell weinyddol);
- ansawdd y ffynhonnell ddata neu'r data a ddefnyddiwyd;
- rhesymau penodol eraill.

Fodd bynnag, bydd lefel yr ansawdd yn golygu nad yw'n effeithio'n sylweddol ar y casgliadau. Er enghraifft, efallai na fydd yr union gyfnod amser yn ganolog i'r casgliadau y gellir eu gwneud, neu mai trefn maint y canlyniadau, yn hytrach na'r union ganlyniadau, sydd o ddiddordeb i'r gynulleidfa.

Nid yw'r dadansoddiad a gyflwynwyd yn Ystadegyn Cenedlaethol, ond efallai ei fod yn seiliedig ar gynnyrch Ystadegau Cenedlaethol a bydd wedi cael ei ystyried yn ofalus a'i archwilio'n fanwl cyn ei gyhoeddi. Bydd asesiad o'r cryfderau a'r gwendidau yn y dadansoddiad yn cael ei gynnwys yn yr erthygl, er enghraifft cymariaethau â ffynonellau eraill, ynghyd â chanllawiau ar sut y gellid defnyddio'r dadansoddiad, a disgrifiad o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd.

Mae'r arferion cyhoeddi fel y'u diffinnir gan y protocol arferion cyhoeddi yn berthnasol i'r erthyglau, ac felly, er enghraifft, maent yn cael eu cyhoeddi ar ddyddiad sy'n cael ei gyhoeddi ymlaen llaw yn yr un modd â chynhyrchion ystadegol eraill. Mae symbolau gwerth coll a ddefnyddir yn yr erthygl yn dilyn y safonau a ddefnyddir mewn cynhyrchion ystadegol eraill, fel yr amlinellir isod.

| | |
|---|---|
| .. | Nid yw'r eitem ddata ar gael |
| . | Nid yw'r eitem ddata'n gymwys |
| - | Nid yw'r eitem ddata yn union sero, ond fe'i hamcangyfrifir yn sero neu lai na hanner y digid terfynol a ddangosir. |
| * | Mae angen datgelu'r eitem ddata neu nid yw'n ddigon cadarn i'w chyhoeddi. |

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, oni nodir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/